**Rhif: WG41832**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad - crynodeb o'r ymatebion

# Ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) Drafft

Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft

25 Chwefror 2021

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80082-941-1

# Cynnwys


Pennod 1 - Cyflwyniad, cefndir a throsolwg o'r ymatebion ..... 3
Pennod 2 - Crynodeb o'r ymatebion ..... 5
Pennod 3 - Trosolwg o'r ymatebion ..... 6
Cwestiwn 1: Cenhadaeth Ddinesig ..... 6
Cwestiwn 2: Diogelu dysgwyr ..... 7
Cwestiwn 3: Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ..... 9
Cwestiwn 4: Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau ..... 10
Cwestiwn 5: Cynigion i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion ..... 12
Cwestiwn 6: Cryfhau'r cydweithredu ..... 14
Cwestiwn 7: Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Cymraeg ..... 17
Cwestiwn 8: Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ..... 18
Cwestiwn 9: Dyletswyddau'r Comisiwn mewn perthynas ag addysg Drydyddol ganol Cymraeg ..... 19
Cwestiwn 10: Cofrestru (cynlluniau mynediad a chyfle) ..... 20
Cwestiwn 11: Y Comisiwn i fonitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiad â chofrestriad ..... 23
Cwestiwn 12: Ansawdd ac arolygu ..... 24
Cwestiwn 13: Ymchwil ac Arloesi ..... 25
Cwestiwn 14: Fframweithiau prentisiaethau ..... 27
Cwestiwn 15: Prentisiaethau a gofynion diwydiant ..... 27
Cwestiwn 16: Anghenion yr economi a chyflogwyr ..... 28
Cwestiwn 17: Cyllid, ffocws ar ddeilliannau ..... 29
Cwestiwn 18: Asesiad Effaith Rheoleiddiol ..... 32
Cwestiwn 19: Cost a manteision yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ..... 33
Cwestiwn 20: Normal Newydd ..... 34
Cwestiwn 22: Sylwadau ychwanegol ..... 38
Pennod 3 - Casgliad ..... 43
Pennod 4 - Y camau nesaf ..... 44
Pennod 5 - Atodiad o'r ymatebion ..... 45

# Pennod 1 - Cyflwyniad, cefndir a throsolwg o'r ymatebion

## Cefndir/pwrpas

Rhoddodd yr ymgynghoriad ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) drafft gyfle arall i ymgysylltu â rhanddeiliaid, a gofyn cwestiynau penodol ar feysydd penodol er mwyn profi elfennau polisi. Y pwrpas yw sicrhau bod darn cadarn a chynhwysfawr o ddeddfwriaeth yn barod i'w gyflwyno yn y dyfodol.

Yn wreiddiol, disgwyliwyd y byddai'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) yn cael ei gyflwyno yn nhymor y Senedd hon. Fodd bynnag, ar 9 Mehefin 2020 cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig yn egluro bod yr heriau yn sgil Covid-19 wedi arwain at benderfyniad gan y Prif Weinidog a'r Gweinidog Addysg i ohirio cyflwyno'r Bil.

Gan fod yr ymgynghoriad hwn wedi'i gynnal yn ystod y pandemig Covid-19, mae wedi golygu y bu modd ceisio barn rhanddeiliaid ar faterion a ddaeth yn hysbys yn ystod y pandemig, er mwyn profi ymhellach allu'r Bil Drafft i ymateb i heriau newydd, annisgwyl.

Mae'r ymgynghoriad ar y Bil Drafft yn adeiladu ar gynigion blaenorol a nodwyd ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru, 'Budd y Cyhoedd a Chymru Ffyniannus - Datblygu system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ddiwygiedig' a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2017. Roedd y rhain yn cynnig dull o ddarparu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol sy'n 'unigryw i Gymru' er mwyn ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at ddysgu gydol oes a chaffael y sgiliau sydd eu hangen i'w helpu drwy gydol eu gyrfaoedd. Roedd yn amlinellu cynigion i greu Comisiwn newydd i ddisodli Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) ac i gymryd cyfrifoldeb dros gyllido a pherfformiad addysg bellach, dysgu seiliedig ar waith, dysgu oedolion, ymchwil ac arloesi yng Nghymru a darpariaeth chweched dosbarth.

Dilynwyd hyn gan Ymgynghoriad Technegol a oedd yn adeiladu ar yr ymatebion i'r Papur Gwyn. Cyhoeddwyd hwn ym mis Gorffennaf 2018 ac roedd yn nodi cynigion manylach ar gyfer diwygio'r system addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yng Nghymru. At ei gilydd, roedd y rhanddeiliaid yn cefnogi'r egwyddorion a oedd ynddo ond cynigiwyd mân welliannau mewn ambell faes. Cyhoeddwyd crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad technegol ym mis Hydref 2018.

## Ymgysylltu

Cyhoeddwyd ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) Drafft ar 14 Gorffennaf a daeth i ben ar 4 Rhagfyr 2020. Daeth 65 o ymatebion i law, yn bennaf gan sefydliadau a chyrff wedi'u lleoli yng Nghymru.

Gwahoddwyd ymatebwyr i adolygu'r ddogfen ymgynghori a'r wybodaeth ategol ar-lein ac ymateb i bob un o'r cwestiynau drwy e-bost, holiadur drwy'r post neu ffurflen ar-lein.

Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o sesiynau briffio technegol gyda rhanddeiliaid drwy gydol mis Hydref a mis Tachwedd i ddarparu cefndir a chyd-destun pellach i'r Bil Drafft. Cynhaliwyd y sesiynau briffio yn rhithiol oherwydd cyfyngiadau'n ymwneud â'r Coronafeirws. Cafwyd cynrychiolaeth o randdeiliaid o bob rhan o'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ac roedd y sesiynau'n caniatáu i randdeiliaid godi cwestiynau i'w cynorthwyo i ddeall y cinigion, ac i'w cynorthwyo yn eu hymateb i'r ymgynghoriad.

## Strwythur yr ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys 22 o gwestiynau a oedd yn ymdrin â gwahanol agweddau ar y Bil Drafft, a chwestiwn agored er mwyn i randdeiliaid godi unrhyw faterion cysylltiedig eraill. Cafodd cwestiwn penodol ei gynnwys a oedd yn gofyn barn rhanddeiliaid ar y Bil Drafft yng ngoleuni'r pandemig, a chwestiwn cyffredinol yn galluogi rhanddeiliaid i gynnig dulliau ychwanegol eraill i gefnogi'r agenda Diwygio Addysg a Hyfforddiant Ôl-Orfodol. Roedd un ar bymtheg o gwestiynau'n gofyn i ymatebwyr nodi p'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â gosodiad, neu heb farn y naill ffordd na'r llall. Roedd y gweddill yn gwestiynau agored.

## Ynglŷn â'r dadansoddiad

At ddibenion dadansoddi, cafodd yr holl ymatebion eu harbed yn ddiogel a dynodwyd rhif adnabod unigryw i bob un. Lle y cytunodd yr ymatebwyr i hynny, cofnodwyd eu manylion ar daenlen Excel ynghyd â manylion yr ymateb i'r Ymgynghoriad.

Cafodd yr ymatebion eu dadansoddi yn ôl lleoliad, sut y cyflwynwyd pob ymateb, ymateb yn ôl sector, iaith yr ymateb (Cymraeg neu Saesneg) a ph'un a oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â gosodiad neu heb farn naill ffordd na'r llall.


Roedd y sylwadau a gafwyd yn ymdrin ag ystod o themâu, ac nid oedd pob un ohonynt o fewn cwmpas y Bil Drafft hwn. Roedd nifer o awgrymiadau a sylwadau yn ymwneud â gweithredu'r Bil a fframwaith gweithredu'r Comisiwn, a fydd yn ddefnyddiol iawn i'w hystyried yn ddiweddarach yn y broses ddiwygio.

Nid oedd pob sylw yn ymatebion uniongyrchol i'r cwestiynau a ofynnwyd, ac felly cawsant eu trin fel rhan o'r 'sylwadau ychwanegol' o dan Gwestiwn 22. Yn yr un modd, roedd nifer o sylwadau mewn ymateb i Gwestiwn 22 yn berthnasol i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad ac o'r herwydd, cawsant eu trin o fewn y meysydd penodol hynny.

Bwriad y ddogfen hon yw bod yn grynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid yw wedi'i bwriadu i gofnodi pob pwynt a godwyd gan yr ymatebwyr ond yn hytrach mae'n tynnu sylw at y themâu allweddol. Mae crynodeb o brif themâu a phenawdau'r ymatebion wedi'i gynnwys yn y ddogfen hon ac mae wedi helpu gyda'r gwaith o ddatblygu'r Bil Drafft ymhellach.

# Pennod 2 - Crynodeb o'r ymatebion


## Lleoliad yr ymatebion




O ran lleoliad daearyddol, roedd 32 o Gymru, 5 o ardaloedd ehangach y DU a 28 ble oedd y lleoliad yn anhysbys. Cyflwynwyd dau ymateb yn Gymraeg, 58 yn Saesneg a chyflwynwyd 5 yn ddwyieithog. Cyflwynwyd 17 o ymatebion yn ddienw a chyflwynwyd 48 gyda manylion cyswllt.

## Ymatebion yn ôl sector cyfredol

Cyflwynwyd y gyfran fwyaf o ymatebion gan y sector addysg uwch, ac yna'r sector addysg bellach ac undebau.




# Pennod 3 - Trosolwg o'r ymatebion

## Cwestiwn 1: Cenhadaeth Ddinesig

Mae'r Bil Drafft (Adran 7 (4)) yn diffinio “cenhadaeth ddinesig” i olygu “gweithredu at ddiben hybu neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol neu ddiwylliannol Cymru (gan gynnwys gweithredu a all gyflawni unrhyw un neu ragor o’r nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015."

A ydych chi'n cytuno y bydd y dull gweithredu yn y Bil Drafft ar gyfer cenhadaeth ddinesig yn ddefnyddiol i'r Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau?




Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno y byddai'r dull gweithredu a fabwysiadwyd ar gyfer cenhadaeth ddinesig yn y Bil Drafft yn ddefnyddiol i'r Comisiwn wrth arfer ei swyddogaethau.

Cafwyd ystod o sylwadau hefyd gan y rhai nad oedd ganddyn farn y naill ffordd na'r llall, ac ystyriwyd y rhieni hefyd.

Teimlai rhai ymatebwyr fod y diffiniad yn y Bil drafft yn rhy eang, ond roedd eraill yn croesawu'r hyblygrwydd a'r cwmpas ar gyfer gwahaniaethu y byddai'r diffiniad yn ei gynnig. Yn gyffredinol, croesawyd y ffaith bod y diffiniad wedi'i gysylltu â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mynegodd rhai o'r ymatebwyr a gytunodd farn hefyd ynghylch sut yr oeddent yn credu y dylai weithio a phwysleisiwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Mae'r ffaith bod cenhadaeth ddinesig yn un o amcanion strategol y Comisiwn, yn rhoi cyfle gwerthfawr i hyrwyddo, gwella a gwerthuso'r swyddogaeth hon.
- Dylai'r Comisiwn weithio mewn partneriaeth â phrifysgolion i ddatblygu a chyd-greu'r gwaith hwn; a thrwy hynny osgoi problemau llywodraethu yn ogystal â bod yn gydnaws ag ysbryd cenhadaeth ddinesig.
- Dylai gwybodaeth a dealltwriaeth a ddatblygir gan ddarparwyr dysgu gael eu rhannu'n hygyrch ac yn eang gydag unigolion a chymunedau, gan gynnwys mathau o addysg oedolion, a defnyddio technolegau digidol yn arloesol.

- Bydd hunaniaeth gymunedol gref yn helpu darparwyr i ymgysylltu â strategaeth ehangach y DU, a bydd yn datblygu'r hyder i edrych tuag allan a datblygu partneriaethau yng Nghymru a thu hwnt.

- Roedd cefnogaeth i'r ffaith bod y ddeddfwriaeth yn rhoi disgwyliad i'r Comisiwn y byddai sefydliadau academaidd yn ymestyn y tu hwnt i'w hystafelloedd dosbarth a'u campysau ac yn gweithio'n agos gyda'u cymunedau i hyrwyddo gwybodaeth, dysgu a sgiliau ar draws cymdeithas.

- Mae angen rhoi rhywfaint o ystyriaeth i sut y gellir asesu a mesur enillion cenhadaeth ddinesig.

Roedd rhai o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r cwestiwn, a rhai o'r ymatebwyr nad oedd ganddynt farn y naill ffordd na'r llall, yn dal i gefnogi'r syniad mewn egwyddor ond yn teimlo nad oedd digon o ddulliau cadw cydbwysedd o fewn y Bil fel y'u drafftiwyd i ddiogelu rhai o'u pryderon.

Roedd yr amheuon a fynegwyd yn canolbwyntio ar sawl thema:

- Yr angen i sicrhau nad oedd y ddyletswydd hon yn gwrthdaro â statws neu amcanion elusennol eu sefydliadau nac yn eu tanseilio.

- Yr awydd i sicrhau y caniateir i'w cenhadaeth ddinesig ymestyn y tu hwnt i Gymru i rai o'r cymunedau rhyngwladol y buont yn rhyngweithio â hwy.


- Dylai unrhyw ddiffiniad o hyn yn y bil ganiatáu roi cyfle i sefydliad ddehongli ei ystyr yn unol â'i weledigaeth a'i strategaeth ei hun.

- Yr angen am ddull partneriaeth, er nad oedd esboniad o sut y gallai'r ddyletswydd atal hyn.

- Yr angen i dderbyn bod yr iaith yn ymwneud â chenhadaeth ddinesig yn esblygu'n gyson ac mae angen digon o hyblygrwydd i hyn ddigwydd yn y dyfodol.

## Cwestiwn 2: Diogelu dysgwyr

Bydd angen i'r Comisiwn bennu fformat a chynnwys Cynlluniau Diogelu Dysgwyr mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid (adran 114(6) a (7)), gan gynnwys sut i gyfathrebu'r cynlluniau i ddysgwyr a darpar ddysgwyr.  Ydych chi'n cytuno â'r dull gweithredu hwn?



Cymysg oedd yr ymatebion cyffredinol i'r cwestiwn hwn. Amlygodd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'r dull a gynigiwyd yn y Bil Drafft y canlynol:

**Cysondeb**

Mae dull gweithredu cyson yn bwysig i fformat a dull cyfathrebu'r cynlluniau. Byddai'r gofyniad yn y Bil Drafft i'r Comisiwn gyhoeddi canllawiau ar baratoi ac adolygu cynlluniau diogelu dysgwyr yn helpu i gyflawni hyn.

Dylai trefniadau diogelu dysgwyr fod yn gyson â set gyffredin o egwyddorion i sicrhau cysondeb i ddysgwyr ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol. Mae'n bwysig bod gan ddarpariaeth chweched dosbarth mewn ysgolion drefniadau diogelu cyfatebol, os nad trefniadau union debyg, i ddysgwyr eraill o dan gylch gwaith y Comisiwn.

Dylai cynlluniau diogelu dysgwyr adeiladu ar y trefniadau presennol sydd ar waith gan ddarparwyr AU i gydymffurfio â Fframwaith Asesu Ansawdd CCAUC, safonau ansawdd Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU, fframwaith arfer da Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar Addysg Uwch a Deddf Hawliau Defnyddwyr 2015.

Os bwriedir i'r ddeddfwriaeth gwmpasu trefniadau partneriaeth, bydd yn bwysig egluro sut y disgwylir i Gynlluniau Diogelu Dysgwyr weithredu yn ymarferol, yn enwedig yn achos Addysg Drawswladol, yng nghyd-destun cymhlethdodau sy'n codi ar draws gwahanol awdurdodaethau.

**Ymwybyddiaeth Dysgwyr**

Dylai dysgwyr wybod cyn dechrau ar raglenni pa drefniadau sydd ar waith i'w diogelu pe bai cwrs neu gampws yn cau, pe bai methiant gan ddarparwr neu pe baent yn dewis trosglwyddo i gwrs neu ddarparwr arall.

- Dylai'r Comisiwn sicrhau bod gan fyfyrwyr fynediad at wybodaeth glir a pherthnasol gan gynnwys y ddarpariaeth addysgol, cyfraddau cyfranogi, a deilliannau myfyrwyr mewn gwahanol gyrsiau a sefydliadau er mwyn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus.

- Dylai cynlluniau diogelu dysgwyr gynnwys cefnogaeth a ddarperir drwy ddilysu prifysgolion i fyfyrwyr sy'n astudio gyda darparwyr amgen.

Byddai'r hyblygrwydd a gynigir ochr yn ochr â'r system reoleiddio llai anhyblyg yn adlewyrchu amrywiaeth y sector ôl-orfodol.

Mynegodd yr ymatebwyr nad oeddent yn cytuno â'r dull a gynigiwyd yn y Bil yr amheuon a ganlyn:

- Ni ddylai trefniadau cadarn gyflwyno beichiau gweinyddol ychwanegol.

- Gellid addasu cynlluniau dros amser.


- Mae'n ymddangos bod cynlluniau diogelu dysgwyr yn adlewyrchu'r cynlluniau yn Lloegr sydd wedi cael eu beirniadu.

- Dylai cynlluniau diogelu dysgwyr gynnwys dysgwyr mewn chweched dosbarth ysgolion.

- Ni ddylai fod modd i'r Comisiwn wneud ei addasiadau ei hun i'r cynlluniau diogelu dysgwyr.

## Cwestiwn 3: Cod Ymgysylltu â Dysgwyr

Nod y Comisiwn fydd sicrhau bod buddiannau dysgwyr yn cael eu cynrychioli, a bod pob dysgwr yn cael cyfle i gyfrannu a rhannu eu barn. Ydych chi'n hyderus bod y Cod Ymgysylltu â Dysgwyr yn debygol o gynnwys pob dysgwr, a chynrychioli'r sector ôl-16 cyfan yn ddigonol?




### Trosolwg

Atebodd mwyafrif yr ymatebwyr 'ydw' neu 'nac ydw' i gwestiwn 3. Roedd rhai o'r safbwyntiau hyn yn debyg iawn ymysg yr ymatebwyr hynny a atebodd 'ydw' neu 'nac ydw' i'r cwestiwn.

### Siarteri Myfyrwyr

Roedd llawer yn teimlo bod siarteri myfyrwyr ac undebau myfyrwyr ar waith mewn sefydliadau a'u bod yn gweithio'n dda, a nodwyd yr angen i'r Cod Ymgysylltu â Dysgwyr ategu'r rhain yn hytrach na'u dyblygu. Tynnodd ambell ymatebydd sylw at yr angen am iaith gyson ar draws y sector, gan argymell defnyddio myfyriwr yn hytrach na dysgwr.

### Cysondeb a Hyblygrwydd

Roedd llawer o'r farn bod y Cod yn gam cadarnhaol tuag at sector cynhwysol, gan gynghori y dylid ymgynghori â'r holl grwpiau nad oedd ganddynt gynrychiolaeth ddigonol a'u cynnwys yn y broses o'i ddatblygu a'i gyflwyno. Tynnodd yr ymatebwyr sylw at bwysigrwydd cymhwyso'r Cod i bob dysgwr, waeth beth yw'r dull dysgu. Roedd ambell un yn teimlo bod y Bil yn aneglur ynghylch dysgu oedolion a myfyrwyr ysgolion ffydd, nododd eraill fod bylchau yn y Sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ar hyn o bryd a oedd yn tanseilio cynrychiolaeth o ran gwneud penderfyniadau a phrofiad myfyrwyr. Roedd cysondeb felly yn allweddol i sicrhau tegwch ar draws y sector, gan hyrwyddo egwyddorion arweiniol a chamau ymarferol, a chaniatáu hyblygrwydd i sicrhau Cod an-rhagnodol a fyddai'n caniatáu cymesuredd. Gyda hyn mewn golwg, roedd sawl un yn teimlo y dylid cyfyngu pwerau'r Comisiwn o fewn y Bil i sicrhau bod y sector yn cadw hyblygrwydd o ran sut mae'n ymgysylltu â dysgwyr, gan ganolbwyntio ar amcanion ac egwyddorion yn unig.

### Ymgynghori a Datblygu

Credwyd bod angen ymgynghori'n briodol ar y Cod, gydag ymgysylltiad ar draws y sector ac, yn anad dim, gyda dysgwyr eu hunain, cyn gosod unrhyw ofynion cyfreithiol. Teimlai rhai fod angen i'r ddeddfwriaeth fod yn gryfach ac yn fwy manwl er mwyn sicrhau cynrychiolaeth gynhwysol o fyfyrwyr a'u hymgysylltiad, a chafwyd un awgrym y dylai fod cyfansoddiad cyfreithiol i hyn ac y dylai gael ei ariannu drwy undebau myfyrwyr. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn y gallai hyn osod gofynion nad oeddent yn briodol i'w sefydliad a chreu goblygiadau pellach o ran adnoddau a llwyth gwaith.


Roedd yr ymatebion cadarnhaol yn gweld y Cod fel cyfle i sefydliadau ddatblygu eu hymgysylltiad â dysgwyr. Dylid hefyd ystyried gwahaniaethau daearyddol ac ieithyddol yn llawn wrth ddatblygu'r Cod. Ar ôl ei ddatblygu, byddai ei gyflawni'n weithredol mewn perthynas ag adrodd, monitro a thegwch yn hanfodol. Roedd pryder ynghylch natur wirfoddol ymgysylltiad myfyrwyr yn y Cod a'r angen i werthuso data i ddeall cynwysoldeb y Cod ac addasu yn unol â hynny.

### Dosbarthiadau Chwech

Roedd sawl ymatebydd yn poeni nad oedd rheidrwydd ar ysgolion a dysgwyr yn y chweched dosbarth i gadw at y Cod, ond roedd eraill yn falch o weld pwysigrwydd rhannu arferion da gyda phob sefydliad yn cael ei gydnabod. Roedd ambell ymatebydd o'r farn bod eithrio'r chweched dosbarth yn groes i argymhelliad gwreiddiol Hazelkorn i greu un corff cydlynol ar gyfer y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol cyfan.  Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i roi cyfrif am wahaniaethau mewn dulliau cyfathrebu ac annibyniaeth dysgwyr cyn ac ôl-18.

## Cwestiwn 4: Gwybodaeth, Cyngor a Chanllawiau

Mae'r Bil drafft (adran 93) yn caniatáu i'r Comisiwn roi cyllid ar gyfer darparu gwybodaeth, cyngor neu ganllawiau i ddysgwyr yng Nghymru.   A oes ystyriaethau pellach y dylid eu hystyried i sicrhau bod pob dysgwr yn cael cyngor neu ganllawiau i gefnogi <u>llwybrau dysgu, pontio a chynnydd</u> er mwyn eu galluogi i gyfrannu a llwyddo mewn cymdeithas deg a chynhwysol ac economi ffyniannus?




### Trosolwg

Ymatebodd mwyafrif yr ymatebwyr yn gadarnhaol i'r cwestiwn a chynnig sylwadau tebyg i'r rhai a atebodd 'oes' neu 'nac oes'.  Roedd rhai safbwyntiau negyddol yn ymwneud â phwerau'r Comisiwn mewn perthynas â data. Caiff yr ymatebion hyn eu crynhoi ar wahân o dan gwestiwn 22.

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn, ac eithrio'r ddarpariaeth sy'n ymwneud â phŵer y Gweinidogion i gyllido darparwyr allanol yn uniongyrchol. Roedd llawer o'r farn y dylid rhoi'r pŵer i gyllido gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chanllawiau yn uniongyrchol yn nwylo'r Comisiwn yn hytrach nag yn nwylo Gweinidogion. Fodd bynnag, roedd y mwyafrif yn croesawu'r flaenoriaeth a roddwyd i gefnogi myfyrwyr drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau drwy lwybrau addysgol. Roedd yr ystyriaethau pellach a grybwyllwyd yn cyd-fynd yn fras â'r themâu canlynol.

**Cyfathrebu gwybodaeth**

Amlygwyd pwysigrwydd cyfathrebu a llif gwybodaeth ar wahanol lefelau mewn sawl ymateb. Gallai hyn fod ar lefelau lleol, rhanbarthol neu genedlaethol rhwng unigolion, sefydliadau ac awdurdodau, ynghyd â sicrhau bod y cyngor sydd ar gael yn dibynnu ar angen unigol, fel y math o gwrs/darpariaeth. Roedd rhai yn cwestiynu a ddylid symud i wasanaeth gyrfaoedd diduedd a ariennir yn ganolog. Roedd rhai o'r farn y dylid ystyried a thargedu darpariaeth yn fwy lleol, gan ddangos pwysigrwydd cydbwysedd o ran gwybodaeth.

**Ystod ac Ansawdd y wybodaeth**

Rhoddwyd pwyslais ar yr angen i sicrhau bod disgyblion yn cael gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ar bob maes pontio posibl, ac nid dim ond un llwybr. Galwyd am sicrhau cydbwysedd rhwng canllawiau eang a'r angen i ddarparu arbenigedd mewn meysydd mwy arbenigol, fel gofal iechyd.

Roedd ambell ymatebydd eisiau i'r Comisiwn ystyried dynodi corff ansawdd i gefnogi a gwella dilyniant a threfniadau pontio i ddysgwyr. Gwnaed awgrymiadau o ran yr hyn y gellid ei gynnwys mewn perthynas â llwybrau dysgwyr, gyda'r nod o awgrymu y gellid cynnwys darpariaeth mewn cytundebau deilliannau. Roedd peth pryder yn ymwneud â'r canfyddiad bod diffyg hyfforddiant o fewn y Bil, y credwyd y dylid ei gynnwys fel rhan annatod o'r broses ddysgu.

**Cynwysoldeb**

Yn gyffredinol, pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen i gynnig gwybodaeth, cyngor a chanllawiau hygyrch ac eang i ddiwallu anghenion dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys dysgu o bell a dysgu oedolion gan roi ystyriaeth i ddarpariaeth cyllid cymunedol, yn enwedig ysgolion chweched dosbarth o fewn cymunedau.

Galwodd nifer am wybodaeth, cyngor a chanllawiau i gefnogi grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol er mwyn chwalu'r rhwystrau i bontio a dilyniant, gan nodi bod angen darpariaeth wedi'i theilwra nid yn unig ar gyfer proffesiynau arbenigol ond i'r rhai ag anghenion ychwanegol. Yn ychwanegol at hynny, dylai gwybodaeth, cyngor a chanllawiau fod ar gael yn y fformat sydd fwyaf hygyrch i'r dysgwr.

Yn yr un modd, roedd angen i wybodaeth, cyngor a chanllawiau fod ar gael mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg ac addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg, yn ogystal â'r hyn a ddarperir gan ysgolion eglwysig, colegau a chweched dosbarth i sicrhau bod cyngor ar gael mewn perthynas â llwybrau dilyniant clir i ddysgwyr.

**Cydweithio / Ymgynghori**

Roedd llawer o'r farn bod darparu gwybodaeth, cyngor a chanllawiau yn gyfle da i gryfhau cydweithio, cydweithredu a chyfathrebu ar draws y sector i sicrhau gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chanllawiau cwbl gynhwysol. Er enghraifft, tynnodd rhai sylw at y

cyfle i gyflwyno cyfleoedd hyfforddi mewn perthynas â dysgu a dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig â'r farchnad lafur, ochr yn ochr â chyflogwyr.

Cafwyd rhagor o awgrymiadau manwl ynghylch y dulliau a allai fod ar waith i weithredu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chanllawiau effeithlon yn gysylltiedig â'r cyfle i'r Comisiwn weithio â rhanddeiliaid i edrych ar safonau yn y maes hwn.  Roedd angen cydweithio mewn perthynas â gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i sicrhau nad oedd fawr ddim dyblygu, neu ddim dyblygu o gwbl, â gwasanaethau gyrfaoedd eraill, gyda chyfle i atgyfeirio dysgwyr at arbenigedd arall i sicrhau eu bod yn cael y cyngor mwyaf priodol, gan gynnwys yr angen i gefnogi llesiant.


**Cyllid**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr o blaid system a ariannwyd yn ganolog mewn perthynas â gwybodaeth, cyngor a chanllawiau, gyda dyraniad cyllideb clir a theg.  Tynnwyd sylw hefyd at yr angen i gydnabod y gystadleuaeth sy'n bodoli rhwng darparwyr ar hyn o bryd.  Roedd sawl un o'r farn y dylai'r cyllid ei hun ganolbwyntio'n bennaf ar fuddiannau dysgwyr gyda chysylltiadau â marchnad lafur ymatebol a chyflogwyr, yn hytrach na sefydliadau.

## Cwestiwn 5: Cynigion i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion

Bydd gan y Comisiwn rôl mewn perthynas ag ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion a gynhelir.  Mae'r Bil drafft yn caniatáu i'r Comisiwn gyfarwyddo awdurdod lleol i gyflwyno cynigion ad-drefnu, neu ei gynigion ei hun, mewn amgylchiadau cyfyngedig.  Byddai'r amgylchiadau lle gellir defnyddio dull gweithredu o'r fath yn destun ymgynghori ac yn cael eu cynnwys yn y diwygiadau i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion statudol.

A ydych chi'n cytuno mai'r Cod Safonau a Threfniadaeth Ysgolion yw'r cyfrwng mwyaf priodol ar gyfer amlinellu’r systemau a'r prosesau ac a oes gennych unrhyw sylwadau ar yr amgylchiadau lle gellir defnyddio dull gweithredu o’r fath?




Yn gyffredinol, cafwyd ymatebion cymysg i'r cwestiwn hwn.  Roedd llai na hanner cyfanswm yr ymatebion a dderbyniwyd mewn ymateb i'r cwestiwn hwn yn cynnwys sylwadau yn nodi'r rheswm dros eu hymateb. Roedd rhai o'r sylwadau'n ymwneud â gweithredu'r trefniadau ac er nad ydynt wedi'u cwmpasu'n llawn yma, byddant yn cael eu hystyried wrth ddatblygu cynigion manwl.

**Cod Trefniadaeth Ysgolion**

Yn benodol, roedd amrywiaeth o safbwyntiau ynghylch ai cod Safonau a Threfniadaeth Ysgolion fyddai'r cyfrwng mwyaf priodol i amlinellu'r systemau a'r prosesau. Cafodd y sbectrwm cyfan ei gwmpasu gan yr ymatebwyr hynny a wnaeth sylwadau.

Roedd barn y byddai ad-drefnu ysgolion yn rôl bwysig i'r Comisiwn ac o'r safbwynt hwnnw cytunwyd y byddai angen Cod Trefniadaeth Ysgolion clir er mwyn iddo weithio o fewn y paramedrau y cytunwyd arnynt. I'r gwrthwyneb, barn arall oedd ei bod yn ymddangos yn anghyson i'r Cod Safonau a Threfniadaeth Ysgolion gael ei ddefnyddio i amlinellu systemau a phrosesau, pan na fyddai'r Comisiwn yn gallu datblygu'r Cod hwnnw o dan y cynigion cyfredol. Gellid mynd i'r afael â hyn o bosibl drwy alluogi'r Comisiwn i ddatblygu'r cyfrwng priodol ar gyfer nodi'r systemau a'r prosesau, ond gan ystyried y Cod, er mwyn sicrhau bod mesurau diogelwch Llywodraeth Cymru wedi'u hymgorffori. Safbwyntiau eraill a fynegwyd oedd ei bod yn anodd dweud ar hyn o bryd ai'r cod Safonau a Threfniadaeth Ysgolion fyddai'r cyfrwng mwyaf priodol gydag un arall yn awgrymu y dylai fod yn destun adolygiad annibynnol.

**Sbardunau**

Cytunwyd y dylai'r sbardunau ar gyfer dechrau ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth gan y Comisiwn ei hun gael eu diffinio'n glir a bod yn destun ymgynghoriad llawn gyda'r holl bartïon priodol cyn ei gyflwyno. Dylent fod yn seiliedig ar y gwelliannau y byddai'r cynigion ad-drefnu ysgolion yn eu cyflawni ac nid ar ffactorau economaidd neu resymau cyllido yn unig. Roedd angen ystyried agweddau eraill fel amcanion Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gwaith teg, cenedlaethau'r dyfodol, datblygu yn seiliedig ar leoeddac egwyddor dim niwed o ran cyflog ac amodau. Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid ystyried meini prawf posibl. Roedd y rhain yn cynnwys a fyddai cynigion yn:

- Gwella llesiant dysgwyr, aelodau o staff neu'r gymuned ehangach yn sylweddol.
- Caniatáu darpariaeth addysg drydyddol sy'n fwy cynaliadwy yn ariannol yn yr ardal.
- Mynd i'r afael â chynnydd yn y galw.
- Cynnig gwerth am arian a defnydd effeithlon o adnoddau.
- Gwella safonau, ehangder y cwricwlwm, darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu gynnig manteision ychwanegol i ddysgwyr.
- Mynd i'r afael â thanberfformio parhaus yn unol â'r dystioaleth yn yr adolygiadau o Gytundebau Deilliannau a gynlluniwyd.

Nododd sawl ymatebydd fod yn rhaid i ymgynghoriad llawn â'r holl bartïon priodol barhau i fod yn rhan hanfodol o unrhyw gynigion i ad-drefnu ysgolion a diwygiadau arfaethedig i'r Cod Trefniadaeth Ysgolion.

Gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau ar yr angen i gyflwyno trefniadau i ddiogelu a hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Gymraeg gyfredol mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

**Safbwyntiau eraill**

**Rôl y Comisiwn**

Roedd un ymatebydd o'r farn, drwy alluogi'r Comisiwn i roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol neu gorff llywodraethu gyflwyno cynigion ad-drefnu, na fyddai'n gallu sicrhau cynigion a gâi eu cynhyrchu ar lefel leol. Nododd ymatebwyr eraill, lle roedd y Comisiwn yn cyfarwyddo awdurdodau lleol, byddai angen iddo wneud hynny ar sail tystiolaeth gadarn, gan ddangos dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r gwahaniaethau yng Nghymru.

Nododd ambell ymatebydd y dylai penderfyniadau ar gynigion i ad-drefnu chweched dosbarth ysgolion fod yn benderfyniad i aelodau a etholir yn ddemocrataidd yn y pen draw, sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau ar sail anghenion y dysgwyr yn eu hawdurdod lleol a bod y cynigion yn groes i hynny. Awgrymodd un ymatebydd y dylai Gweinidogion Cymru barhau i fod â rôl yn hyn o beth, gan eu bod yn uniongyrchol atebol i'w hetholwyr am effaith unrhyw newidiadau. Roedd pryder hefyd nad oedd y Bil fel y'i drafftiwyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynigion i ad-drefnu ysgolion fod yn destun penderfyniad Gweinidogol os codwyd gwrthwynebiadau, oni bai bod y Comisiwn wedi gofyn iddo wneud hynny.


Soniwyd am bwysigrwydd sicrhau bod Awdurdodau Lleol a'r Comisiwn yn ystyried yn ofalus yr effaith ar ddarpariaeth arbenigol i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn unrhyw benderfyniad i ad-drefnu darpariaeth chweched dosbarth.

**Ysgolion**

Gwnaeth sawl ymatebydd sylwadau ar sefyllfa chweched dosbarth ysgolion gan dynnu sylw at y ffaith eu bod yn unigryw yn yr ystyr y byddant o fewn cwmpas y Comisiwn ond eu bod hefyd yn rhan o sefydliad addysg ehangach sy'n dod o dan drefniadau cyllido, gwerthuso ac atebolrwydd ar wahân.  Teimlai un ymatebydd fod diffyg cydnabyddiaeth yn y Bil o le ysgolion gwirfoddol a rôl yr eglwysi fel partneriaid gyda'r wladwriaeth wrth ddarparu addysg crefydd, gwerthoedd a moeseg (addysg grefyddol yn flaenorol).

## Cwestiwn 6: Cryfhau'r cydweithredu

Mae Rhan 3 o'r Bil drafft yn darparu swyddogaethau i gyllido chweched dosbarth ysgolion, addysg bellach, addysg uwch, prentisiaethau a dysgu oedolion a hefyd dysgu ac arloesi sy'n gysylltiedig â darparwyr addysg.  Yn eich barn chi, a oes unrhyw swyddogaethau cyllido neu swyddogaethau eraill ychwanegol a fyddai'n galluogi mwy o gydweithredu ar draws y sector addysg drydyddol?



O ran yr ymatebwyr hynny a fynegodd farn, nodwyd y gallai'r Comisiwn fynd ymhellach i gryfhau cydweithredu yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol er mwyn gwella'r cynnig i ddysgwyr, datblygu cyd-nodau a gwella ymarfer addysgeg, a bod amryw o fecanweithiau ar gael i gyfrannu at y broses hon:

- Gallai annog a hwyluso cydweithredu gweithredol helpu a chael ei gyflawni, nid drwy reoliadau ond drwy annog diwylliant o gydweithio ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

- Gallai darparwyr gytuno'n lleol ar lefel sefydliadol ynghylch darparu cyrsiau, er mwyn osgoi'r gofyniad i gynnwys y Comisiwn.

- Ni fyddai cydweithredu hirdymor yn cael ei gyflawni pe bai'r cydweithredu yn seiliedig ar brosiectau. Dylai cydweithredu gwirioneddol fod yn seiliedig ar nodau hirdymor a chytundebau strategol.

- Mae partneriaeth gymdeithasol yn fodel cydweithredol a bydd ynddo'i hun yn helpu i osod y naws ar gyfer addysg drydyddol yng Nghymru.

- Dylid ystyried sut y gallai Cytundebau Deilliannau hyrwyddo cydweithredu e.e. drwy ymgorffori gofynion neu gymhellion ar gyfer dulliau cydweithredol o gynllunio darpariaeth yn strategol.

**Cyllid**

- Dylai fod cymhellion cyllido i hwyluso cydweithredu rhwng dosbarthiadau chwech a Cholegau AB gan ddefnyddio'r cyfle i gynyddu'r dewis i fyfyrwyr a lleihau dyblygu.

- Dylai fod yn ofynnol i ddarparwyr lefel 3 ymgysylltu a chydweithredu â darparwyr addysg uwch i hwyluso llwybrau a swyddogaethau clir ar gyfer dilyniant dysgwyr drwy'r sector trydyddol.

- Dylai'r dyraniadau cyllid gael eu gwahanu rhwng gwahanol elfennau'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i roi eglurder a sicrwydd na fyddai cyllid yn cael ei gwtogi ar gyfer rhai agweddau. Os na fyddai rhagor o gyllid ymchwil ar gael pan sefydlir y Comisiwn, roedd pryder y gallai'r sector AU ddioddef yn sgil hynny.

- Roedd yn hanfodol bod cyllid digonol yn cael ei ddarparu i ganiatáu i gydweithredu weithio'n dda. Cyfeiriodd yr ymatebwyr at enghreifftiau o Fesur Dysgu a Sgiliau (Cymru) 2009 neu'r Llwybrau Dysgu 14-19 yr adroddwyd eu bod yn darparu profiadau cadarnhaol i randdeiliaid a dysgwyr. Pan ddaeth y cyllid i hwyluso'r gwaith hwn i ben, nid oedd ysgolion wedi gallu fforddio talu costau cydweithio rhyngddynt hwy a cholegau gan olygu mai ychydig iawn o gydweithredu sydd.

- Awgrymwyd creu cronfa benodol i ddarparu adnoddau ar gyfer addysg rithwir fel ffordd o gynorthwyo cydweithredu ar draws yr holl sefydliadau, a fyddai’n cyflwyno dull cydweithredol ble bynnag fo lleoliad y sefydliadau.

**Maint y Darparwyr**

Awgrymwyd bod angen symud tuag at nifer llai o ddarparwyr mwy o faint er mwyn darparu rhagor o wytnwch ac effeithlonrwydd yn y sector a chreu canolfannau arbenigedd gyda gwell arbenigrwydd. Gellid cyflawni hyn a chynnal mynediad cyffredinol eang i addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel i fyfyrwyr gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau.

**Gyrfaoedd**

Dylai'r llwybrau gyrfaoedd i ddysgwyr fod yn rhan annatod o benderfyniadau myfyrwyr a dylai fod parodrwydd i Gyrfa Cymru chwarae mwy o ran yn y sector a darparu'r cysylltiadau angenrheidiol ar gyfer hyfforddiant, rhwng cyflogwyr a dysgwyr. Un farn oedd bod angen sicrhau bod dyheadau gyrfa pobl ifanc yn cael eu hystyried yn ddigonol wrth gynllunio ar gyfer y sector. Awgrymodd un ymatebydd y gallai sefydlu hyb gwybodaeth Gyrfa Cymru yn 2021 hwyluso gwell cydweithredu â'r sector.

**Myfyrwyr ag Anghenion Arbennig**

Bydd y diwygiadau newydd yn ymwneud ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn darparu system un cynllun i ddysgwyr ADY hyd at addysg bellach, ond nid y tu hwnt i addysg bellach ac i'r brifysgol/byd gwaith. Mae cyfle wrth ddatblygu'r Comisiwn i annog a helpu i hwyluso mwy o gydweithredu a rhannu gwybodaeth rhwng sectorau addysg drydyddol er mwyn sicrhau bod y rhai ag anawsterau ac anableddau dysgu yng Nghymru yn pontio'n fwy didrafferth ar y pwyntiau hanfodol hyn.

**Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg**

Roedd pryder ynghylch sut y byddai cyllid yn cael ei ddyrannu i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac y byddai addysg yn colli rhywfaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg oherwydd y newidiadau. Yn ogystal, nodwyd bod angen canolbwyntio'n fwy amlwg ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg pan gytunir ar drefniadau cydweithredu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn eang ac o ansawdd uchel.

**Diffyg Manylion yn y Bil**

Roedd diffyg manylion yn y Bil ynghylch y dulliau i annog cydweithredu yn golygu ei bod yn anodd gwneud sylwadau ar hyn o bryd ar ba mor llwyddiannus fyddai cydweithredu o dan y Comisiwn newydd.

**Safbwyntiau Eraill**

- Mae sefydliadau a threfniadau cydweithredu sydd eisoes yn rhychwantu ffiniau'r sector, ac mae'r strwythurau presennol yn ddigonol i alluogi cydweithredu a gallai fod budd o ddatblygu'r rhain ymhellach, yn hytrach nag ychwanegu swyddogaethau statudol pellach ar gyfer y Comisiwn.

- Byddai'r Bil Drafft yn darparu digon o gyfleoedd i'r sector gydweithredu, er enghraifft, mewn meysydd penodol gan ddefnyddio cytundebau deilliannau, ac ariannu Ymchwil ac Arloesi drwy bartneriaethau.

## Cwestiwn 7: Y Gymraeg/darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai sefydlu'r Comisiwn (adran 8) yn ei chael ar yr iaith Gymraeg, ac yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.
Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau positif a lliniaru effeithiau negyddol?

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o'r farn y gallai sefydlu'r Comisiwn o bosibl gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg a chyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg mewn ffordd nad oedd yn llai ffafriol na'r Saesneg. Nodwyd y gallai sefydlu'r Comisiwn:

- Gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg drwy greu llwybrau a chysylltiadau cadarn ar draws addysg drydyddol.

- Rhoi cyfle i ddarparwyr ôl-16 gynllunio'n strategol a chydweithio, o fewn ac ar draws sectorau, i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig ar gyfer addysg a hyfforddiant galwedigaethol.

- Meithrin trefniadau cydweithrediadau agosach rhwng chweched dosbarth ysgolion, AB ac AU i gefnogi darpariaeth Gymraeg, gan weithio ochr yn ochr â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Gwnaeth nifer o ymatebwyr awgrymiadau ar sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol sefydlu'r Comisiwn.

- Dylid dyrannu cyllid ychwanegol i ddarparwyr i gefnogi datblygiad addysgu cyfrwng Cymraeg ac i sicrhau bod agweddau eraill ar brofiad myfyrwyr, megis cymorth bugeiliol, ar gael yn y ddwy iaith.

- Dylid canolbwyntio mwy ar ddatblygu ymarferwyr dwyieithog. Dadleuwyd mai recriwtio yw un o'r heriau mwyaf sy'n wynebu'r sector addysg mewn perthynas â darparu mynediad cyfartal i addysg cyfrwng Cymraeg, lle mae cael anhawster i recriwtio athrawon, tiwtoriaid, darlithwyr a staff dysgu yn y gwaith sy'n gallu siarad Cymraeg a/neu'n hyderus wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn broblem gyffredin. Mae hyn hyd yn oed yn fwy o broblem mewn meysydd technegol neu arbenigol.

- Rhaid rhoi llawer mwy o anogaeth i ysgolion, addysg bellach ac addysg uwch gydweithredu o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Bydd hyn yn sicrhau bod y continwwm addysg yn cael ei gydnabod a bod pobl ifanc 16-19 oed yn elwa o arbenigedd a chyfraniad y rhai mewn addysg uwch. Dylai datblygiadau yn y dyfodol adeiladu ar arfer da cyfredol fel prosiect Esgol Llywodraeth Cymru.

- Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu mwy o wybodaeth am sut y byddai'r Comisiwn yn gweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Dylai'r Comisiwn adeiladu ar y berthynas gadarnhaol rhwng CCAUC a'r Coleg i weithio ar y cyd i gyflawni'r nodau cyffredin o gynyddu nifer yr unigolion sy'n astudio addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

- Byddai angen i'r Comisiwn fynegi'n glir fanteision defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle er mwyn ymgysylltu â chyflogwyr, yn enwedig y rhai yn y sector preifat

a'r rhai sy'n ymwneud â chefnogi prentisiaethau nad ydynt yn cael eu cwmpasu gan ddeddfwriaeth yr iaith Gymraeg.

- Mae angen sicrhau cynnydd sylweddol yn y defnydd o'r Gymraeg mewn rhaglenni prentisiaeth yn gyffredinol. Rhan allweddol o hyn fydd sicrhau bod cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn prentisiaeth drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog a sicrhau bod prentis yn ymwybodol o fanteision sgiliau Cymraeg.

- Dylid comisiynu sesiynau addysg glinigol i ganiatáu i unigolion feithrin hyder wrth siarad Cymraeg mewn lleoliad clinigol a dylid annog ymchwil cyfrwng Cymraeg.

- Dylai'r Comisiwn roi sylw dyledus i anghenion mynediad siaradwyr Cymraeg ifanc neu ddysgwyr sy'n ddall neu'n rhannol ddall mewn perthynas â Braille Cymraeg neu fformatau amgen eraill ar gyfer y Gymraeg.

## Cwestiwn 8: Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg

Eglurwch hefyd os ydych yn teimlo y gellid newid y ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn Bil drafft ar gyfer sefydlu'r Comisiwn er mwyn cynyddu'r effeithiau positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

Derbyniwyd ystod eang o sylwadau ac awgrymiadau mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Lle y teimlwyd bod y cynigion yn ddigonol:

- Byddai'r darpariaethau presennol yn galluogi'r Comisiwn i wneud cyfraniad sylweddol at gyflawni uchelgais Cymraeg 2050, yn enwedig cyflawni nodau penodol sy'n gysylltiedig ag addysg ôl-orfodol.

- Mae'r darpariaethau arfaethedig yn cyd-fynd yn briodol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynghylch y Gymraeg, a'i chynnwys o fewn y cysyniad o ymgysylltiad sifil fel cam gweithredu at ddiben hyrwyddo neu 'wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.'

- Gan y byddai safonau'r Gymraeg, fel yr amlinellwyd ym Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn berthnasol i'r Comisiwn, ac y byddai dyletswydd arno i annog darparu addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg a chymryd rhan mewn darpariaeth o'r fath, roedd hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg.

- O ystyried y byddai'n ddyletswydd ar y Comisiwn i barchu safonau'r Gymraeg, byddai'n rhaid iddo gyflawni ei swyddogaethau i hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson i ddarparwyr ac ar draws pob maes polisi. Mae'n ymddangos yn ddiangen, felly, cynnwys disgwyliadau ychwanegol mewn unrhyw ddeddfwriaeth arall.

Roedd yr awgrymiadau ar gyfer newid yn cynnwys y canlynol:

- Er mwyn creu gweithlu dwyieithog, roedd angen sicrhau bod mwy o fyfyrwyr a graddedigion sydd wedi'u haddysgu yng Nghymru yn aros yng Nghymru. Dylai hyn gael ei adlewyrchu'n well yn y Bil ac mewn meysydd polisi ehangach.

- Sicrhau bod y rhai sy'n wynebu rhwystrau rhag defnyddio'r iaith yn cael eu gosod o fewn fframwaith sy'n lliniaru'r rhwystrau hynny. Yn nodweddiadol, mae'r rhwystrau hyn yn amlwg mewn cymunedau lle nad yw'r Gymraeg yn cael ei

siarad yn eang a lle mae amddifadedd sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn gyffredin. Gofynnwyd am gydnabyddiaeth am y cysylltiad rhwng y Cymraeg ac ehangu cyfranogiad, ac y gallai'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg ategu a gwella deilliannau i'r rhai sy'n dioddef anfantais.

- Dylai fod yn ofynnol i'r Comisiwn weithio'n agos â chyrff eraill, er enghraifft y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cyngor y Gweithlu Addysg, ac Addysg a Gofal Iechyd Cymru. Os nad yw'n briodol nac yn bosibl sôn am gyrff penodol yn y ddeddfwriaeth, dylid cyfleu'n glir iawn at ba fath o gyrff strategol cenedlaethol y mae'r ddeddfwriaeth yn cyfeirio.

- Dylid sefydlu pwyllgor â chyfrifoldeb statudol, sy'n cynnwys cylch gwaith i ddarparu dysgu gydol oes ac addysg oedolion, a sicrhau bod ehangu cyfranogiad a'r Gymraeg yn un o swyddogaethau'r pwyllgor hwnnw.

## Cwestiwn 9: Dyletswyddau'r Comisiwn mewn perthynas ag addysg Drydyddol ganol Cymraeg

Beth yw eich barn am y dyletswyddau a osodir ar y Comisiwn mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg?

**Safbwyntiau**

Roedd cefnogaeth gyffredinol i'r dyletswyddau arfaethedig gael eu gosod ar y Comisiwn mewn perthynas ag addysg drydyddol cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o ymatebwyr ddiwygiadau i'r dyletswyddau.

- Dylai'r dyletswyddau gael eu hymestyn i gefnogi unigolion nad ydynt wedi cael cyfle o'r blaen i fanteisio ar addysg Gymraeg.

- Mae'n hanfodol bod dysgwyr, ble bynnag y bônt ar y continwwm iaith, yn cael cyfleoedd ystyrlon i adeiladu ar y sgiliau Cymraeg a gawsant yn flaenorol yn ystod addysg statudol.

- Awgrymodd nifer o'r ymatebwyr fod defnyddio'r term 'rhesymol' yn adran 8 (b) o'r Bil Drafft yn broblem, gan ei fod yn anodd ei ddiffinio a'i fod yn agored i'w ddehongli. Mae angen diffiniad mwy manwl gywir o 'galw rhesymol' er mwyn rhoi dealltwriaeth glir o'r disgwyliadau i sefydliadau.

- Ni ddylai 'galw' fod yn seiliedig ar alw gan ddysgwyr yn unig; mae angen iddo gwmpasu'r galw gan gyflogwyr am weithwyr sy'n gymwys i gyflawni eu swyddi'n ddwyieithog er mwyn diwallu anghenion eu cymunedau, eu defnyddwyr a'u cwsmeriaid. Dylai annog dysgwyr i ymgymryd â darpariaeth Gymraeg i wella eu sgiliau mewn ffordd gyfannol, a chynllunio ar gyfer twf yn hytrach nag ehangu ar sail 'galw'.

- Mae'r Bil Drafft yn disgrifio sut mae'n rhaid i'r Comisiwn “annog” addysg cyfrwng Cymraeg. Gellid ystyried hyn mewn termau cryfach.

- Awgrymodd nifer o ymatebwyr y dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i ddarparu adnoddau sy'n cyd-fynd â dyletswydd y Comisiwn i sicrhau bod digon o addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei darparu.

- Mynegodd rhai ymatebwyr bryderon y byddai'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru osod telerau ac amodau sy'n ymwneud â chyrsiau penodol neu rannau o gwrs astudio, heb fod dyletswydd arnynt i ddyrannu cyllid digonol ar gyfer hynny. Mae hyn yn tanseilio'r egwyddor o awtonomi academaidd a sefydliadol, sy'n hanfodol ar gyfer enw da, ac atyniad rhyngwladol y system addysg uwch yng Nghymru.

- Byddai'n ddefnyddiol gosod dyletswydd benodol ar y Comisiwn i hyrwyddo datblygu sgiliau Cymraeg yn y gweithlu addysg drydyddol.

- Byddai ychwanegu gofyniad ffurfiol ar gyfer casglu a chyhoeddi data am ddarpariaeth addysg drydyddol Gymraeg yn helpu i feithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfleoedd i astudio yn Gymraeg.


- Mae angen atebolrwydd penodol o fewn y Comisiwn a pharodrwydd i sicrhau atebolrwydd gan eraill, gan gynnwys drwy'r cytundebau deilliannau gyda sefydliadau unigol.

- Efallai y bydd Llywodraeth Cymru eisiau ystyried a oes angen gwneud y Comisiwn yn ymgynghorydd statudol pan fydd awdurdodau lleol yn datblygu eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg.

- Rhaid i unrhyw ganllaw ar gyfer monitro darpariaeth a ddatblygir gan y Comisiwn fod yn ddiamwys. Dylai'r darparwyr a'r Comisiwn gytuno ar dargedau ar gyfer cynllunio ieithyddol strategol a'u hadolygu'n flynyddol.

## Cwestiwn 10: Cofrestru (cynlluniau mynediad a chyfle)

A yw'r cynigion ar gyfer Cynlluniau Mynediad a Chyfle (adrannau 32-41) yn ddigonol i sicrhau bod gan y Comisiwn bwerau i ysgogi newid trawsffurfiol o ran ehangu mynediad a chyfle mewn addysg uwch?




Roedd rhai o'r ymatebion a oedd yn cytuno y gallai Cynlluniau Mynediad a Chyfleoedd ysgogi newid trawsffurfiol yn cynnwys yr amodau canlynol:

- Byddai'r cynlluniau, ar y cyd â Chytundebau Deilliannau ar draws y sector addysg drydyddol, yn galluogi'r Comisiwn i ddatblygu cyfeiriad strategol cryf er budd dysgwyr mewn cymunedau difreintiedig.

- Dylai'r Comisiwn gael yr hyblygrwydd i bennu'r dulliau mwyaf priodol o hyrwyddo ehangu mynediad a dylai allu geithio gyda darparwyr a rhanddeiliaid eraill i ysgogi newid trawsffurfiol.

- Gallai'r Comisiwn, drwy ddatblygu a gweithredu ei gynllun strategol, a thrwy werthuso ac ymchwil roi sicrwydd ei fod yn cyflawni deilliannau trawsffurfiol yn hytrach na rhagnodi gofynion mewn deddfwriaeth.

**Roedd yr awgrymiadau ar gyfer gwella'r cynlluniau yn cynnwys:**

- Dylai cynlluniau sefydliadau ystyried a blaenoriaethu anghenion demograffig, daearyddol a thechnegol diwydiannau sy'n berthnasol i'w hamgylchiadau unigol.

- Dylai'r cynlluniau gynnwys mesurau i fonitro ac adrodd ar lefel y gefnogaeth gyrfaoedd sydd ar gael i ddysgwyr.

- Cynyddu hyd Cynlluniau Mynediad a Chyfle o gymharu â'r trefniadau cyfredol ar gyfer Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.

- Dylid ymestyn cwmpas y Cynlluniau i gynnwys astudiaeth ran-amser.

- Dros y tymor hwy, gellid cymhwyso elfennau o'r dull Cynlluniau Mynediad a Chyfle i ddarpariaeth ôl-16 mewn ysgolion a cholegau ac roedd hyn yn gyfle i ddatblygu cynlluniau sy'n berthnasol i ddysgwyr pan fyddant yn iau.

- Dylid galluogi'r Comisiwn i gymhwyso amodau cofrestru neu gyllido yn gyfartal i bob darparwr addysg drydyddol a ddylai fod â'r un cyfrifoldebau o ran hyrwyddo cyfranogiad yn hytrach na bod y Comisiwn yn gyfrifol am annog cyfranogiad mewn addysg bellach a hyfforddiant a darparwyr mewn perthynas ag addysg uwch. Rôl y Comisiwn fyddai rheoleiddio cyflawni cyfrifoldebau o'r fath.

- Mae'r Bil Drafft yn cyfeirio at “gyfle cyfartal” a byddai defnyddio'r term “deilliant cyfartal” yn cryfhau'r ffocws ar ddeilliannau.

- Cais i lais myfyrwyr gael ei gynyrychioli ac i ddarpariaeth gael ei chynnwys yn y Bil i ymgynghori ar Gynlluniau Mynediad a Chyfle gyda sefydliadau sy'n cynrychioli myfyrwyr.

**Ymhlith y materion a godwyd ynghylch Cynlluniau Mynediad a Chyfle roedd:**

**Baich Gweinyddol**

- Gallai parhau â dull tebyg i Gynlluniau Ffioedd a Mynediad, a chyflwyno Cytundebau Deilliannau, roi beichiau gweinyddol ychwanegol ar sefydliadau gyda'r posibilrwydd o ddyblygu ymdrech yn ogystal â chynyddu cymhlethdod.

- Roedd barn bod Cynlluniau Ffioedd a Mynediad o dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015 wedi creu beichiau gweinyddol sylweddol, gan arwain at ddargyfeirio adnoddau ac nad ydynt yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd ac nad

yw'r cynigion ar gyfer cynlluniau Mynediad a Chyfle yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

**Diffyg Hyblygrwydd**

- Gallai i ba raddau y caiff cynnwys Cynlluniau Mynediad a Chyfle ei ragnodi gyfyngu ar hyblygrwydd y dyfodol, ymatebolrwydd y Comisiwn a llesteirio datblygiad dull gweithredu strategol.

- Bydd angen ystod o opsiynau i ehangu mynediad a chyfle gyda systemau ar waith i alluogi hyblygrwydd ac i gefnogi symud dysgwyr rhwng addysg alwedigaethol ac addysg academaidd.

**Effaith y Pandemig**

- Gallai'r pandemig Covid-19 a'r effeithiau posibl ar recriwtio a chadw myfyrwyr yn y tymor byr olygu na fyddai Cynlluniau Mynediad a Chyfle ynddynt eu hunain yn ddigonol i sicrhau newid trawsffurfiol o ran ehangu mynediad a chyfleoedd mewn addysg uwch.

**Diffyg Eglurder**

- Mae diffyg eglurder ynghylch a fyddai gofyniad ar ddarparwyr amgen i gael Cynllun Mynediad a Chyfle a chanlyniadau posibl i ddarparwyr o'r fath wrth ddarparu cymorth ariannol a/neu ffioedd is i fyfyrwyr o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.

- Nid yw'r Bil yn diffinio grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn ddigonol.

**Ymgysylltu**

- Dylid datblygu manylion Cynlluniau Mynediad a Chyfle yn dilyn ymgynghori ac ymgysylltu â'r sector addysg uwch.

**Cydlyniant ar draws y Sector**

- Nid yw'r cynnig i Gynlluniau Mynediad a Chyfle fod yn berthnasol i addysg uwch yn unig yn cefnogi'r bwriad o greu cydlyniant ar draws y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a bydd angen mewnbwn gan bob sector. Dylid galluogi'r Comisiwn i gymhwyso amodau cofrestru neu gyllid yn gyfartal i bob darparwr addysg drydyddol a ddylai fod â'r un cyfrifoldebau o ran hyrwyddo cyfranogiad.

**Atebolrwydd**

- Pryderon ynghylch darpariaeth benodol ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau dysgu ac anableddau, anghenion amrywiol y dysgwyr hyn ynghyd â hygyrchedd gwasanaethau ar gyfer y grŵp hwn ac awgrym y gallai rheoleiddio cynnwys cynlluniau, ynghyd â sancsiynau gorfodi gan y Comisiwn, gynorthwyo i sicrhau atebolrwydd darparwyr sy'n cyflawni eu cynlluniau.


**Mecanweithiau posibl eraill**

- Gallai Cytundebau Deilliannau gynnig mecanwaith amgen i fynd i'r afael â mynediad a chyfle cyfartal.

- Gallai'r Comisiwn, drwy ddatblygu a gweithredu ei gynllun strategol, a thrwy werthuso ac ymchwil roi sicrwydd ei fod yn cyflawni deilliannau trawsffurfiol yn hytrach na rhagnodi gofynion mewn deddfwriaeth.

## Cwestiwn 11: Y Comisiwn i fonitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiad â chofrestriad

A fydd y pwerau arfaethedig i'r Comisiwn ar gyfer monitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofynion cofrestru (adrannau 22-26) yn rhoi digon o hyblygrwydd iddo reoleiddio'n gymesur ac yn briodol?




Rhoddodd yr ymatebwyr a oedd yn cytuno y byddai pwerau arfaethedig y Comisiwn yn rhoi digon o hyblygrwydd iddo reoleiddio'n gymesur sylwadau ychwanegol, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Mae'r dull arfaethedig i'w weld yn bwyllog, yn gymesur ac yn briodol.

- Mae angen am eglurder ynghylch pa ddarparwyr a fyddai wedi'u cofrestru neu'n “anghofrestredig”, gan gyfeirio'n benodol at ddarparwyr hyfforddiant annibynnol sy'n darparu prentisiaethau.

- Dylai monitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth fod yn gadarn ac yn sensitif i anghenion dysgwyr a sefydliadau.

- Dylid cynnal y rheoliadau cyfredol yn arbennig mewn perthynas â darparwyr preifat.

Rhoddodd yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno neu a oedd â phryderon gyda'r dull gweithredu arfaethedig ystod o resymau i gefnogi eu hymatebion, a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Mae proses gofrestru ar gyfer darparwyr addysg uwch yn ddiangen yng ngoleuni'r offer rheoleiddio a'r ysgogiadau cyllido sydd ar gael i CCAUC ar hyn o bryd.

- Byddai'r system reoleiddio arfaethedig (yn cynnwys cofrestru, Cynlluniau Mynediad a Chyfle a chytundebau deilliannau) yn fwy cymhleth; byddai cydymffurfiaeth yn gofyn am fwy o ymdrech weinyddol a gallai arwain at fwy o gostau i sefydliadau na'r trefniadau cyfredol.

- Mae'r pwerau a gynigir i'r Comisiwn osod amodau cofrestru ar ddarparwyr yn ormodol. Er gwaethaf y ddyletswydd sydd i'w rhoi ar y Comisiwn i sicrhau bod amodau cofrestru yn gymesur â'i asesiad o'r risgiau, nid oes unrhyw awgrym o beth fyddai'r risgiau perthnasol a cheir pryder na fyddai darparwyr yn gallu herio'r penderfyniad i orfodi'r amodau hynny.


- Gall y dull arfaethedig arwain at drin darparwyr yn anghyfartal; gallai'r Comisiwn ddod yn rhan o reoli sefydliadau unigol o ddydd i ddydd, ac roedd pryder arbennig am ei allu i osod gofynion gorfodol mewn perthynas â llywodraethu a rheoli.

- Er bod y pwerau a gynigir mewn perthynas â chofrestru yn gymesur ac yn cynnwys lefel briodol o fanylion i ganiatáu i'r Comisiwn fonitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth darparwyr, efallai na fyddant yn galluogi'r Comisiwn i sicrhau system addysg drydyddol gydlynol drwy ddefnyddio'r gofrestr fel y sylfaen ar gyfer ymgysylltu â'r holl ddarparwyr. Yn gyffredinol, roedd yr adborth yn galw am fwy o fanylion mewn nifer o feysydd yn ymwneud â'r cynigion, ac yn benodol, sut y byddent yn gweithio'n ymarferol a manylion am y broses bontio.

Roedd ystod o sylwadau yn ymwneud yn fwy ag effaith weithredol a gweithredu'r pwerau hyn yng ngwaith y Comisiwn. Bydd y ffactorau hyn yn cael eu hystyried ymhellach ac yn arbennig felly wrth roi'r diwygiadau ar waith.

## Cwestiwn 12: Ansawdd ac arolygu

Mae'r Bil drafft (adrannau 42-60) yn cynnig dull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar gyfer ansawdd ac arolygu ar draws y sector addysg drydyddol. A yw'r trefniadau arfaethedig yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng adeiladu ar y trefniadau presennol mewn addysg uwch, addysg bellach a hyfforddiant a chweched dosbarth ysgolion a gynhelir, a gweithio tuag at dull gweithredu mwy cyson a chydweithredol ar draws y sector addysg drydyddol?




Yn gyffredinol, roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r symudiadau tuag at ddull cydlynol o oruchwylio ansawdd ar draws addysg bellach ac uwch, yn seiliedig ar egwyddorion cyffredin, ac adeiladu ar y trefniadau asesu ac arolygu presennol. Tynnwyd sylw at y pwyntiau canlynol:

- Pwysigrwydd sicrhau nad yw unrhyw fframweithiau sicrhau ansawdd a gyhoeddir gan y Comisiwn yn dod yn feichus neu'n benderfyniadol o ran y dulliau o sicrhau a gwella ansawdd.


- Cwestiynwyd y gofyniad i weinidogion ddynodi corff ansawdd. Nododd yr ymatebwyr bwysigrwydd mesurau diogelwch, ymgynghori a rôl gref i'r Comisiwn wrth bennu'r corff dynodedig. Pwysleisiodd yr ymatebwyr hefyd bwysigrwydd sicrhau bod ansawdd a safonau addysg uwch yn parhau i fod yn gyson â fframweithiau presennol ledled y DU ac Ewrop.
- Mae angen eglurhad pellach ynghylch dyletswyddau Estyn mewn perthynas ag addysg bellach a ddarperir mewn prifysgolion, ac addysg uwch 'heb ei rhagnodi' a ddarperir mewn lleoliadua addysg bellach a dysgu seiliedig ar waith, gan gynnwys cymwysterau proffesiynol a phrentisiaethau uwch.
- Pwysleisiodd yr ymatebwyr bwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus, ymarfer addysgeg myfyriol, a dulliau gwella ansawdd wedi'u harwain gan ymchwil ar draws y sector trydyddol.
- Byddai cyllid ychwanegol yn helpu i hwyluso mwy o gydweithredu rhwng addysg bellach ac addysg uwch o ran sicrhau ansawdd a gwella, gan arwain at gyfleoedd i sicrhau addysg o ansawdd uchel sy'n fwy cyson ar draws y sector trydyddol, a gwell profiad i fyfyrwyr.

**Safbwyntiau eraill**

- Dylai'r diwygiadau fynd gam ymhellach tuag at uno'r dull o asesu a gwella ansawdd o dan un fframwaith neu asiantaeth.
- Gofynnwyd am fanylion ychwanegol ynghylch y gweithdrefnau dynodi, ailddynodi a chodi ffioedd sydd yn Atodlen 3.
- Mae'r diwygiadau'n rhoi cyfle i fynnu bod adroddiadau Estyn yn fwy penodol ynghylch is-adrannau darpariaeth mewn rhai mathau o ddarparwyr, megis chweched dosbarth ysgolion, neu gyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol mewn colegau.
- Mae angen ystyried ymhellach oruchwyliaeth y Comisiwn o ansawdd addysg uwch mewn trefniadau dilysu tramor.

## Cwestiwn 13: Ymchwil ac Arloesi

A ddylai swyddogaethau'r Comisiwn mewn perthynas ag ymchwil ac arloesi (adrannau 95-97) fod yn ehangach na darparwyr addysg drydyddol cofrestredig yn unig?



Yn gyffredinol, roedd yr ymatebwyr a wnaeth sylwadau o'r farn y dylai cyfrifoldebau ymchwil ac arloesi y Comisiwn barhau i fod yn gyfyngedig i weithgaredd ymchwil a gynhelir mewn sefydliadau addysg neu ymchwil yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant. Codwyd pryderon ynghylch y canlynol:

- Newid graddol yn amcanion y Comisiwn, yn ogystal â chreu sefydliad newydd sy'n rhy gymhleth ac anhylaw.


- Roedd galwad i'r Bil gynnwys amddiffyniadau penodol ar gyfer cyllid ymchwil 'cysylltiedig ag ansawdd' heb ei neilltuo. Dadleuodd rhai ymatebwyr pe bai swyddogaethau ymchwil y Comisiwn yn cael eu hehangu, y byddai'n bwysig i Lywodraeth Cymru ymrwymo i ddarparu adnoddau ychwanegol, er mwyn amddiffyn gwariant ar ymchwil cysylltiedig ag ansawdd.
- Codwyd pryderon ynghylch pwerau Gweinidogion Cymru i nodi meysydd ymchwil yn amodau'r cyllid a roddwyd i'r Comisiwn ('cyllid wedi'i neilltuo').
- Cwestiynodd yr ymatebwyr ai Gweinidogion Cymru ddylai benodi pwyllgor ymchwil ac arloesi'r Comisiwn, gan awgrymu mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am benodiadau o'r fath.
- Nododd yr ymatebwyr fod y swyddogaethau ymchwil ac arloesi yn y Bil Drafft yn gymharol gyfyngedig o gymharu â chyfrifoldebau eraill y Comisiwn. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn galw ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu dull gweithredu strategol cliriach ar ymchwil ac arloesi yng Nghymru, ac i osod rôl y Comisiwn yn y cyd-destun hwnnw.
- Galwodd yr ymatebwyr ar Lywodraeth Cymru i ymrwymo i argymhellion cyllido ac argymhellion polisi eraill mewn dau adolygiad diweddar a gynhaliwyd gan yr Athro Graeme Reid.
- Nodwyd bod cryn ansicrwydd yn y maes ymchwil ac arloesi oherwydd ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd a blaenoriaethau polisi Llywodraeth y DU sy'n dod i'r amlwg mewn perthynas ag ymchwil a datblygu rhanbarthol.

Tynnodd rhai ymatebwyr sylw at bwysigrwydd y ffaith y byddai'r Comisiwn yn gallu ariannu ystod ehangach o gyrff at ddibenion cynnal ymchwil i addysg, hyfforddiant a materion cysylltiedig. Mae hyn wedi'i alluogi o dan adran 124 o'r Bil.

Galwodd lleiafrif bach o'r ymatebwyr am sicrhau bod pwerau ymchwil ac arloesi'r Comisiwn yn cael eu 'diogelu yn y dyfodol' drwy alluogi ystod ehangach o gyrff i dderbyn cyllid, gan gynnwys diwydiannau preifat, mentrau a chyrff sy'n ymwneud â datblygu economaidd rhanbarthol.

## Cwestiwn 14: Fframweithiau prentisiaethau

Bydd y Comisiwn yn gyfrifol am fframweithiau prentisiaethau (adrannau 104- 107) a bydd Gweinidogion Cymru'n gyfrifol am bennu a chyhoeddi gofynion craidd Manyleb Prentisiaethau Cymru (WAS) (adrannau 101-103). A ydych chi'n cytuno â'r cydbwysedd hwn o ran pwerau?





- Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ar bwerau Gweinidogion Cymru i nodi pa gymwysterau a all fod yn rhan o fframwaith, gan gredu mai'r Comisiwn ddylai fod yn gyfrifol am hynny. Gofynnwyd i fwy o ystyriaeth gael ei rhoi i'r rhaniad rhwng Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn ynghylch eu priod swyddogaethau.

- Gofynnodd nifer o ymatebwyr am fwy o eglurhad ar weithrediad prentisiaethau, er mwyn sicrhau bod darparwyr yn cael eu trin yn deg. Nodwyd bod prentisiaethau gradd yn cael eu hariannu drwy grant i CCAUC a bod pob prentisiaeth arall yn cael ei hariannu drwy ymarfer tendro a phrsoes gaffael lawn. Roedd ymatebwyr yn aneglur pam roedd trefniadau gwahanol ar waith, a ph'un fyddai'r darpariaethau yn y Bil Drafft yn parhau â'r dull hwn.

- Credai ambell ymatebydd y dylai adran 102 (4) (yn ymwneud ag Ardystio Prentisiaethau a'u gofynion) fod yn rhan o rôl y Comisiwn ac nid Gweinidogion Cymru er mwyn galluogi'r swyddogaeth hon i gael ei safoni a sicrhau cydlyniant ar bob lefel.

## Cwestiwn 15: Prentisiaethau a gofynion diwydiant

A yw'r Bil drafft (rhan 4) yn darparu sbardunau strategol digonol i ddatblygu a chynnal uniondeb prentisiaethau yng Nghymru, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion diwydiant?




- Nododd nifer o ymatebwyr, er bod y Bil Drafft yn nodi mecanweithiau datblygu a chynnal prentisiaethau, nid yw'n ystyried sbardunau strategol ar gyfer datblygu fframwaith. Byddai hyn yn cynnwys nodi anghenion sgiliau a chydweithredu fel cymorth i lwybrau dilyniant sy'n canolbwyntio ar y cyflogwr. Prin yw'r dystiolaeth i awgrymu mai'r mecanweithiau a nodir mewn deddfwriaeth yw'r rhai priodol.

- Ni allai nifer o ymatebwyr weld unrhyw dystiolaeth o “sbardunau strategol” yn Rhan 4 o'r Bil. Cynigiwyd bod Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar alwedigaethau i'w cynnwys yn y fframweithiau yn seiliedig ar flaenoriaethau strategol/economaidd, ond ei bod hefyd yn llunio manylebau (h.y. cynnwys a safonau cyrhaeddiad). Rôl y Comisiwn fyddai cyhoeddi, adolygu a dyrannu. Nid oedd yn glir i'r ymatebwyr pam na fyddai'r Comisiwn yn parhau o'r pwynt pan fyddai Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar y galwedigaethau i'w hariannu ar gyfer prentisiaethau, na pham y byddai Gweinidogion Cymru yn cadw pwerau o'r fath.

## Cwestiwn 16: Anghenion yr economi a chyflogwyr

Mae'n ddyletswydd ar y Comisiwn i ystyried "gofynion rhesymol diwydiant, masnach, cyllid, proffesiynau a chyflogwyr eraill o ran addysg drydyddol ac ymchwil ac arloesi" (adran 2(1)(b)). Yn eich barn chi, a yw'r ddyletswydd hon yn ddigonol ac yn cael effaith ystyrlon fel ag y mae nawr?




Roedd mwyafrif yr ymatebwyr a fynegodd farn yn cytuno bod y ddyletswydd ar y Comisiwn i roi sylw i anghenion yr economi a'r cyflogwyr yn mynd yn ddigon pell ac y gallai gael effaith ystyrlon fel y'i drafftiwyd yn y Bil. Roedd cytundeb cyffredinol hefyd y dylid ystyried bod anghenion yr economi a'r cyflogwyr yn ffactor arwyddocaol sy'n llywio'r broses o wneud penderfyniadau.

Nid oedd gan y rhan fwyaf o'r ymatebwyr farn y naill ffordd na'r llall am y cwestiwn a ofynnwyd, ond fe wnaeth llawer ohonynt gynnwys ystod o sylwadau cysylltiedig, sydd wedi cael eu hystyried. Roedd ystod o'r sylwadau hyn yn ymwneud ag effaith weithredol a'r defnydd o'r ddyletswydd hon yng ngwaith y Comisiwn. Bydd y ffactorau hyn yn cael eu hystyried ymhellach a lle bo hynny'n briodol, cânt eu hystyried wrth roi'r diwygiadau ar waith.

Dadleuodd llawer o ymatebwyr (er gwaethaf eu hatebion amrywiol i'r cwestiwn) er bod anghenion yr economi a chyflogwyr yn ffactor pwysig a allai fod yn hanfodol, ni ddylai hyn

fod yn drech nag anghenion a dyheadau ehangach y dysgwyr yn llwyr.  Fe wnaethant dynnu sylw at y risg pe bai hyn yn digwydd, y gallai llawer o fanteision i'r dysgwr a'r boblogaeth ehangach gael eu colli, gan gynnwys adeiladu eu gwytnwch a'u gallu i addasu wrth i anghenion ein heconomi newid, a diwallu eu hanghenion cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol.


Roedd llawer o'r ymatebwyr hynny a fynegodd farn yn cytuno ar yr angen am gydbwysedd rhwng y gwahanol ffactorau hyn wrth lywio buddsoddiad, ac er mwyn bod yn effeithiol byddai angen i'r Comisiwn bwyso a mesur anghenion partneriaeth sgiliau ag anghenion dinasyddion unigol. Dadleuwyd bod y cydbwysedd hwn yn allweddol wrth gynorthwyo adferiad o'r pandemig. Fodd bynnag, soniwyd hefyd am yr angen i gydnabod cyd-destun penodol Cymru lle y gallai nifer fach o gyflogwyr mawr gamystumio blaenoriaethau'r sector, gan leihau cyfleoedd i arallgyfeirio yn y rhanbarth o bosibl. Mae angen ystyried y persbectif byd-eang ehangach hefyd.

Nodwyd hefyd bod rôl y dulliau pennu cyfeiriad strategol eraill ar gyfer y Comisiwn yn y Bil yn darparu fframwaith, a allai, pe bai'n gweithio'n effeithiol, wneud y ddyletswydd hon yn ddiangen. Soniwyd hefyd y gallai'r ddyletswydd hon fod yn arbennig o berthnasol o ystyried bod y Comisiwn yn cymryd perchnogaeth o'r rhaglen brentisiaeth. Mae hyn yn dangos amrywiaeth ymatebion yr ymatebwyr i gyd-destun gweithredu'r Comisiwn.

Yn arwyddocaol, tynnodd sawl rhanddeiliad sylw at argymhellion Adolygiad Reid a phwysigrwydd ei weithredu. Dadleuodd yr ymatebwyr hyn, pe bai'n cael ei gyflawni'n llawn, y byddai hyn hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at y nod a fynegir yn y Bil Drafft.

## Cwestiwn 17: Cyllid, ffocws ar ddeilliannau

Mae'r Bil drafft (adran 79) yn darparu ar gyfer dull ariannu sy'n seiliedig ar Gytundebau Deilliannau.  Bydd hyn yn caniatáu i'r Comisiwn, drwy ei benderfyniadau cyllido a thrafodaethau â chyrff a gyllidir, gyfrannu at gyflawni blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil.  Gweler y Memorandwm Esboniadol am fanylion y bwriad polisi sy'n sail i'r cytundebau deilliannau (paragraffau 3.56 - 3.58 a 3.145 - 3.147).  A yw'r dull hwn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng blaenoriaethau cyllid strategol ac anghenion darparwyr dysgu unigol?




Nododd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r dull a fabwysiadwyd yn y Bil Drafft rai rhesymau dros y farn honno, a oedd yn cynnwys y canlynol:

**Cysoni cyllid a blaenoriaethau Gweinidogol**

- Mae'n rhesymol cytuno ar ddeilliannau ar gyfer derbyn cyllid.

- Byddai alinio â blaenoriaethau gweinidogol lefel uchel ynghyd â'r bwriad y bydd Cytundebau Deilliannau yn cael eu negodi a'u trafod yn barhaus gan ddarparwyr a'r Comisiwn, yn caniatáu cydbwysedd rhwng blaenoriaethau cyllido strategol ac anghenion darparwyr dysgu unigol.

- Croesawyd ffocws ar ddeilliannau ar draws addysg drydyddol.

**Awtonomi a Hyblygrwydd Gweithredol**

- Byddai'n briodol i'r Comisiwn arfaethedig fod ag awtonomi gweithredol dros gyflawni Cytundebau Deilliannau a phenderfynu ar y modd y dylid eu cynllunio, eu cytuno a'u gwerthuso.

- Byddai awtonomi gweithredol yn darparu hyblygrwydd i'r Comisiwn ymateb i anghenion sy'n newid.

- Byddai hyblygrwydd o ran y dull a fabwysiadir yn y Bil Drafft, sy'n darparu y "gallai" fod angen Cytundebau Deiliannau, yn caniatáu cyfle i fuddiannau dysgwyr gael eu hamddiffyn a chael lle amlwg yn ystyriaethau'r Comisiwn a Llywodraeth Cymru.

**Ymgysylltu â'r sector**

- Croesawyd y cynnig i gydgynhyrchu Cytundebau Deilliannau drwy negodi rhwng y Comisiwn a chyrff a ariennir.

**Nodwyd amheuon ynghylch y materion a ganlyn:**

**Gofynion diwydiant**

- Dylai Cytundebau Deilliannau fod yn realistig ac yn hyblyg.

- Er mwyn sicrhau nad yw Cytundebau Deilliannau'n rhy gyfyngol bydd angen i'r deilliannau a bennir fod yn rhesymol, yn gymesur ac yn realistig a bydd angen rhoi ystyriaeth i fanyleb unrhyw “ymrwymiadau perfformiad” a gynhwysir ynddynt.

- Dylai dull gweithredu hyblyg gan y Comisiwn mewn perthynas â Chytundebau Deilliannau ganiatáu arbrofi ac arloesi e.e. o ran y mathau o gymwysterau a ddarperir a'u cymeriad, a dylai'r cyllid a ddyrennir adlewyrchu anghenion y dysgwyr.

- Ni ddylai Cytundebau Deilliannau gyfyngu ar fentrau sefydliadau unigol, na rhwystro eu gallu i ddatblygu cryfderau, datblygu eu huchelgeisiau a chyflawni eu cenhadaeth addysgol.

- Gallai mabwysiadu “un ateb sy'n addas i bawb” guddio cryfderau unigol ac amrywiaeth y dulliau cyflenwi ar draws yr ystod o sefydliadau yn y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, ond mae hefyd yn poeni am amrywioldeb y dull gweithredu y gall y Comisiwn ei fabwysiadu tuag at wahanol gategorïau o ddarparwyr.

**Baich Biwrocrataidd**

- Dylai'r baich biwrocrataidd a roddir ar gyrff a ariennir sy'n deillio o gyflwyno Cytundebau Deilliannau fod yn gymesur.

- Gallai fod risg bod beichiau o'r fath yn amharu ar gyflawni dull strategol.

- Amheuon ynghylch bod yn rhy benodol mewn deddfwriaeth ynghylch y gofynion, ynghyd â ffafriaeth i'r Comisiwn gael ei rymuso i weithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu ei ddull ei hun o gyflawni deilliannau.

**Diffyg Eglurder**

- Mae angen mwy o eglurder ynghylch ffocws a chwmpas Cytundebau Deilliannau e.e. a fyddai un cytundeb i bob corff a ariennir neu gytundebau gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o ddarpariaeth.

- Cynlluniau ar gyfer Cytundebau Deilliannau, gan gyfeirio'n benodol at ddarpariaeth gofal iechyd mewn addysg uwch.

- Amheuon ynghylch gwerth y dull gweithredu arfaethedig yn absenoldeb sicrwydd ynghylch sut y byddai Cytundebau Deilliannau'n cael eu gweithredu.

- Ymholiadau ynghylch y sylfaen dystiolaeth y byddai Cytundebau Deilliannau yn sicrhau deilliannau trawsnewidiol.

- Sicrhau cydbwysedd rhwng blaenoriaethau cyllid strategol ac anghenion darparwyr dysgu unigol.

**Strategaethau a Blaenoriaethau Strategol**

- Risg na fydd y Bil Drafft yn cyflawni'r bwriad i symud i ddull mwy strategol yn seiliedig ar ddeilliannau. O'u cymryd gyda'i gilydd, gallai'r cynigion ar gyfer system gofrestru, Cynlluniau Mynediad a Chyfle a Chytundebau Deilliannau beri i'r Comisiwn ganolbwyntio ar fanylion ar draul deilliannau strategol.

- Efallai na fydd dull o ddiffinio Cytundebau Deiliannau yn y Bil Drafft (fel gweithgareddau y mae cyrff a ariennir yn cytuno i'w cyflawni) yn cyflawni'r ffocws a ddymunir ar ddeilliannau neu ddull gweithredu strategol gan y Comisiwn.

- Gwrthwynebiadau y byddai Cytundebau Deilliannau yn cael eu gosod yn erbyn y cyd-destun bod Gweinidogion Cymru yn gallu newid blaenoriaethau strategol y Comisiwn.

- Ansicrwydd ynghylch sut y gallai Cytundebau Deilliannau, fel y cynigir ar hyn o bryd, fynd i'r afael â materion craidd, er enghraifft bylchau cyrhaeddiad; diwallu anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ac anableddau ychwanegol cymhleth.

- Angen ystyried deilliannau sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg a datblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog.

- Sylwadau y bydd llwyddiant yn dibynnu, ymhlith pethau eraill ar: gynnwys a natur cytundebau deilliannau; gallu'r Comisiwn i fesur perfformiad yn effeithiol, sicrhau trefniadau atebolrwydd cadarn a sicrhau cyd-ddealltwriaeth â chyrff a ariennir am yr amcanion yn ei gynllun strategol; ac argaeledd data i sicrhau sylfaen ffeithiol gyffredin ar gyfer y gwaith cynllunio hwnnw.

**Deilliannau sy'n canolbwyntio ar gyllid**

- Gallai'r dull arwain at: sefydliadau sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau yn lle'r cynnig gorau i ddysgwyr; effaith niweidiol ar gyfleoedd dysgu a dewis ac y byddai dull sy'n seiliedig ar anghenion, yn hytrach nag un sy'n canolbwyntio ar dalu ar sail canlyniadau yn diwallu anghenion dysgwyr yn well.

- Gallai rhyddid y Comisiwn i bennu manylion gweithredol Cytundebau Deilliannau arwain at oblygiadau i'r berthynas â sefydliadau. Gallai'r dull y mae'n ei fabwysiadu (e.e. defnyddio metrigau) fod yn niweidiol i annog cydweithredu rhwng sefydliadau.

- P'un a oes digon o dystiolaeth i gefnogi cynnwys Cytundebau Deilliannau fel offeryn strategol statudol.

## Cwestiwn 18: Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Mae goblygiadau ariannol y Bil drafft wedi'u hamlinellu yn Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol drafft. Yn eich barn chi, a oes angen i'n manylion ni o ran costau ystyried unrhyw beth arall?

Dim ond 37% o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cwestiwn hwn.

Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod amcangyfrif o gostau'r prosiect yn amcangyfrif rhy isel ac na fyddai'r cyllid, sydd wedi'i ddyrannu, yn ddigonol. Dywedodd yr ymatebwyr fod yr asesiad effaith rheoleiddiol yn ddiffygiol yn y ffyrdd a ganlyn:

- Nid yw cyfrifoldebau traws-sector yn cael eu modelu'n benodol a dim ond costau ad-drefnu CCAUC a Llywodraeth Cymru sydd wedi cael eu cyfrif.

- Mae angen rhoi cyfrif am effaith Covid-19 a cholli cyllid yr UE.

- Nid yw'r goblygiadau i adnoddau, o ran staff ac adnoddau ariannol, ar gyfer gweithgaredd ymgysylltu allanol wedi cael eu harchwilio'n llawn.

- Dylai'r gost o sefydlu'r corff newydd gael ei nodi ar wahân.

- Cyllid ar gyfer cytundebau cenedlaethol rhwng y sector, megis Undebau Llafur a phensiynau.

- Canlyniadau tymor hwy eraill yn sgil gweithredu'r Bil, er enghraifft, effaith ariannol cynyddu cydweithredu rhwng darparwyr a chanlyniadau myfyrwyr yn symud i rywle arall.

- Costau diswyddo staff CCAUC nad ydynt o bosibl yn gallu adleoli.

- Cyllid wedi'i dargedu at y corff ansawdd i gefnogi gweithgaredd gwella ar gyfer y sector.

- Costau trosglwyddo anuniongyrchol i gyrff eraill.

- Mae llawer wedi newid ers i'r costau gael eu cyfrifo'n wreiddiol, felly bydd amcangyfrif wedi'i ddiweddaru o'r holl gostau a manteision yn hanfodol

**Safbwyntiau Eraill**

Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd angen ystyried unrhyw beth arall ar hyn o bryd.

## Cwestiwn 19: Cost a manteision yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Byddem yn hoffi i chi ystyried y costau a'r manteision posibl i gyrff, sefydliadau neu unigolion penodol o ganlyniad i'r Bil drafft.  Nodwch unrhyw sylwadau neu dystiolaeth yma:

Dim ond 38% o'r ymatebwyr a roddodd sylwadau ar y cwestiwn hwn. Teimlai rhai ymatebwyr nad oedd digon o wybodaeth am yr hyn a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol i roi barn ar y costau a'r manteision posibl i gyrff, sefydliadau neu unigolion penodol.

**Chweched dosbarth**

Roedd barn y gallai cyllid ar gyfer darpariaeth chweched dosbarth gael ei effeithio'n andwyol ac y gallai rhai gau o ganlyniad. Gallai cau chweched dosbarth arwain at ddiswyddiadau a cholli incwm i ysgolion, a chost ehangach i'r gymuned y mae'r ysgol yn ei gwasanaethu.

**Darparwyr Amgen**

Sylwadau nad yw costau cyfredol a baich gweinyddol ar ddarparwyr amgen i fodloni rheoliadau cyfredol yn gymesur â maint y sefydliad.

**Covid-19**

Ailystyried costau'r newidiadau arfaethedig ochr yn ochr ag unrhyw gostau a manteision ariannol fel rhan o unrhyw ymarfer gwerthuso opsiynau wedi'i ddiweddaru a gynhelir ar ôl Covid-19.

**Trefniadau cyllido**

Bydd llawer o'r trefniadau rheoleiddio ac ariannu cyfredol wedi'u hymgorffori yn y ddeddfwriaeth newydd sy'n atal cyflawni manteision a allai ddeillio o fwy o gysondeb a chydlyniant.

**Manteision**

- Roedd diffyg gwybodaeth fanwl am y manylion penodol yn ymwneud â chostau a manteision unigol.

- Ni chyflwynwyd gweledigaeth glir ar gyfer y Comisiwn yn yr Adolygiad Effaith Rheoleiddiol. Felly, mae'n anodd asesu'r manteision.

- Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnwys esboniad digonol ynghylch sut y bydd y Bil yn cyflawni'r manteision.

**Deddf Addysg Uwch Cymru 2015**

- Roedd yr ymatebwyr o'r farn ei bod yn debygol bod costau'r Bil Drafft yn fwy sylweddol na chostau Deddf Addysg Uwch (Cymru) 2015. Roedd barn y gallai cost y newidiadau hyn fod wedi'i thanamcangyfrif, a bod angen sicrhau bod costau i randdeiliaid yn cael eu hystyried yn llawn y tro hwn.

**Safbwyntiau eraill**

- Bydd rhanddeiliaid yn parhau i wynebu costau wrth adolygu fersiynau presennol o'r Bil Drafft a fersiynau yn y dyfodol ac wrth ymateb i'r newidiadau arfaethedig ar ôl i'r ddeddfwriaeth newydd gael ei phasio.

- Mae ychydig bach o waith ychwanegol yn debygol o godi yn sgil sefydlu'r corff newydd a'r trosglwyddiadau cysylltiedig, ond ni fyddai hyn yn arwyddocaol oni bai bod y prosesau hynny'n peri problemau.


- Rhaid i'r rheoleiddio fod yn gymesur er mwyn lleihau costau.

- Rhoi ystyriaeth i geisiadau am gymorth ychwanegol i sefydliadau yr effeithir arnynt er mwyn cynnal astudiaethau dichonoldeb ac arfarnu opsiynau yn ogystal â chostau trosiannol ychwanegol unwaith ac am byth i sefydliadau sy'n bwrw ymlaen ag unrhyw ad-drefnu.

- Baich gweinyddol cynyddol sy'n rhoi pwysau ar adnoddau prin.

## Cwestiwn 20: Normal Newydd

A ydych chi'n meddwl bod y pandemig yn codi materion penodol ar gyfer unrhyw beth a gynigir yn y Bil drafft?




Fe wnaeth y rhanddeiliaid hynny a oedd yn ystyried bod y pandemig yn achosi problemau o ran cynigion y Bil Drafft sylwadau ar y canlynol:

- Pryder ynghylch amseriad ymgynghoriad ar y Bil Drafft a dim digon o amser i'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol ei ystyried yn llawn.  Roedd effaith

weithredol yr argyfwng yn golygu nad oeddent wedi gallu ymgysylltu i'r graddau y byddent wedi'i ddisgwyl ar gyfer darn mawr a sylweddol o ddeddfwriaeth.

- Teimlai'r ymatebwyr nad dyma'r amser priodol i gyflwyno newid strwythurol.

- Roedd y cynnwrf yn sgil y Bil wedii creu mwy o ansicrwydd i'r sector ac roedd y trefniadau presennol yn darparu sefydlogrwydd i sefydliadau a myfyrwyr, ac yn helpu i adfer o'r pandemig.

- Gellid gwario arian yn fwy cynhyrchiol a sicrhau ei fod ar gael i'r sector er mwyn helpu i adfer o'r pandemig.

- Mae gormod wedi newid ers adolygiad Hazelkorn a dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad a/neu ymgynghoriad pellach yn dilyn etholiad y Senedd yn 2021.

- Mae Covid-19 wedi gorfodi darparwyr i gyflwyno eu rhaglenni ar-lein, a chan dybio bod gofyniad o hyd am y dull hwn o ddysgu yn y dyfodol, roedd awydd i'r Comisiwn ystyried addysg rithwir fel elfen ar wahân i sicrhau ansawdd darpariaeth rithwir.

- Awgrymodd rhai ei bod yn rhy gynnar i ragweld unrhyw effeithiau tymor hwy yn sgil y pandemig, heblaw am symud i ddysgu ar-lein.

- Mae'r pandemig wedi dangos yr angen am hyblygrwydd yn y model cyllido i ganiatáu i'r system ymateb i'r argyfwng.

- Roedd newidiadau sylweddol a welwyd yn y sector trydyddol yn awgrymu y dylai'r Bil Drafft fod yn ymatebol i'r newidiadau sylweddol hynny a bod yn drawsnewidiol.

- Mae'r heriau digynsail i'r sector wedi creu pwysau ariannol ac roedd pryder y gallai'r Bil, sy'n creu mwy o hylifedd rhwng cyllid y sector, arwain at leihad mewn adnoddau ar gyfer rhai sectorau a chystadleuaeth rhwng sefydliadau o ganlyniad i hynny.

**Safbwyntiau Eraill**


- Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhoi amser i'r sector fyfyrio ar y newidiadau yn sgil y pandemig a chaniatáu amser i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â'r sector.

- Mae'n caniatáu amser i Lywodraeth newydd graffu ar y ddeddfwriaeth ac ymgysylltu â'r sector yn fwy ystyrlon.

- Erbyn i'r Comisiwn gychwyn, ni fyddai'r system addysg o dan y math hwn o bwysau, ac roedd sefydlu'r Comisiwn ar ôl pandemig yn caniatáu i'r Comisiwn ymateb i'r argyfwng a chyfrannu at yr adferiad ariannol ar ôl y pandemig.

## Cwestiwn 21: Diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a newid diwylliannol

Mae'r Bil yn gyfrwng deddfwriaethol i greu corff newydd, sef y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.  A oes unrhyw ddulliau eraill y gellir eu defnyddio i gyflawni'r newid diwylliannol sydd ei angen i wireddu nodau agenda diwygio AHO?




Teimlai rhanddeiliaid o bob rhan o'r sectorau y byddai cydweithredu gwirfoddol a gweithio mewn partneriaeth yn ysgogiad pwysig i sefydlu'r newid diwylliannol sydd ei angen er mwyn cyflawni nodau diwygio addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Pwysleisiodd nifer o randdeiliaid bwysigrwydd cael pwrpas clir a rhannu gweledigaeth hirdymor ar gyfer addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a sicrhau Bwrdd gwirioneddol amrywiol a oedd yn cynrychioli dysgwyr a staff y sector.  Yn ogystal, roedd nifer o randdeiliaid yn teimlo bod angen i gynlluniau'r Comisiwn ystyried amrywiaeth lawn y dysgwyr a'r darparwyr ar draws y sector.

**Safbwyntiau eraill**

Cafwyd ystod eang o sylwadau ychwanegol, sydd wedi'u grwpio o dan 4 thema allweddol: y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol; y Comisiwn, gan gynnwys ei berthnasoedd; gweithlu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol; a dysgwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

Roedd y sylwadau mewn perthynas â'r sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cynnwys:

- Cyfathrebu cliriach ynghylch dyheadau a chyfleoedd, gyda mwy o ymgysylltiad ag ysgolion a'r cyhoedd.

- Yn lle deddfwriaeth, defnyddio'r pwerau presennol a chydweledigaeth hirdymor, ac roedd un rhanddeiliad eisiau gweld o fewn y weledigaeth drefniadau gwella ansawdd, addysgeg a phartneriaeth gymdeithasol yn cael eu rhoi wrth wraidd y gwaith monitro a gwerthuso.

- Fframwaith cyffredin a oedd yn sicrhau ansawdd cynnwys y cwricwlwm ar draws lefelau a darparwyr a oedd hefyd yn galluogi cymariaethau hawdd i ddefnyddwyr.

- Gwell llywodraethu ar draws addysg a hyfforddiant ôl-orfodol a oedd yn sicrhau cynrychiolaeth gynhwysol ar draws y sector ôl-16, gyda gwarant bod staff yn cael eu cynrychioli ar lefel sefydliadol.  Cafwyd awgrym hefyd y dylai llywodraethwyr lleyg o gymunedau lleol fod yn rhan o gyrff llywodraethu.

- Hyrwyddo mwy o fanteision addysg uwch, ymchwil, datblygu ac arloesi.

Roedd y sylwadau mewn perthynas â'r Comisiwn, a'i berthnasoedd yn cynnwys:

- Pwysigrwydd arweinyddiaeth y Comisiwn - angen bod yn hwylusol a chael ei ysgogi gan werth.
- Yr angen am berthnasoedd cryf gyda'r Comisiwn.
- Ystyriaeth lawn i'r deilliannau (e.e. y rhai sy'n ymwneud ag addysg cyfrwng Cymraeg).
- Cydweithio ar ystod o weithgareddau a digwyddiadau sy'n seiliedig ar wella i helpu i gynnal newid diwylliannol.
- Ymgysylltiad mwy uniongyrchol rhwng y Comisiwn, Ysgolion ac Awdurdodau Lleol.
- Ystyriaeth ofalus, yn enwedig mewn perthynas â manylebau cytundeb deilliannau, er mwyn osgoi canlyniadau anfwriadol.
- Eglurder ynghylch rôl a swyddogaeth y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol i lywio datblygiad y Comisiwn o ran cynllunio strategol a'i strwythurau gweithredol.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sylfaen dda i ysgogiadau ychwanegol i annog cydweithredu ar draws y sector ôl-16, y Comisiwn a Llywodraeth Cymru.
- Galluogi hyblygrwydd i'r Comisiwn ddylanwadu, drwy beidio â bod yn rhy benodol o ran manylion y ddeddfwriaeth ar sut i gyflawni ei swyddogaethau.
- Dylai'r cyfrifoldeb dros noddi'r Comisiwn, fel corff dibynadwy hyd braich Llywodraeth Cymru, fod yn nwylo nifer o Weinidogion er mwyn sicrhau bod gan y Comisiwn y pŵer i ddarparu system addysg drydyddol gydgysylltiedig.
- Mae angen ymddiried yn y Comisiwn i weithio hyd braich o Lywodraeth Cymru heb rai o'r cyfyngiadau deddfwriaethol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil Drafft. Dylai fod digon o fesurau diogelu yn y ddeddfwriaeth bresennol i ddarparu ar gyfer y berthynas hon.
- Dylai'r Comisiwn ddefnyddio a dylanwadu ar ysgogiadau sy'n codi yn dilyn newidiadau systemig ar lefel darpariaeth cyn-16, gan alluogi mwy o gyfleoedd i ymgysylltu'n well â dysgwyr, gwell dealltwriaeth o system fwy cydgysylltiedig ar draws pob disgyblaeth addysg a chysondeb drwy ddysgu cyn ac ar ôl 16, er mwyn sicrhau ffyniant yn y dyfodol. Mae'n werth nodi'n benodol yr asesiad pontio rhwng darpariaeth cyn ac ôl-16, gan sicrhau porth effeithiol i ddysgu ôl-16.

Roedd y sylwadau mewn perthynas â gweithlu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cynnwys:

- Dull gweithredu mwy cydweithredol tuag at ddysgu proffesiynol ar gyfer gweithlu addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, gan feithrin dealltwriaeth a pharch cydradd.

Roedd y sylwadau mewn perthynas â dysgwyr addysg a hyfforddiant ôl-orfodol yn cynnwys:

- Y gallu i ddysgwyr gael mynediad at addysg drydyddol i gyflawni eu potensial yn llawn, waeth ble roeddent yn byw neu eu hamgylchiadau ariannol.

## Cwestiwn 22: Sylwadau ychwanegol

Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny.

**Crynodeb o'r ymatebion:**

Darparodd 34 o randdeiliaid ystod o sylwadau eraill mewn ymateb i'r cwestiwn hwn.

Mae crynodeb o'r themâu a'r sylwadau yn dilyn.

**Sylwadau ar y Diwygiadau**

Roedd nifer o sylwadau'n gysylltiedig â'r diwygiadau arfaethedig a pherthnasoedd yn y dyfodol. Roedd y rhain yn cynnwys:

- P'un a oedd deddfwriaeth a'r system newydd yn gallu cyflawni'r deilliannau yr oedd eu heisiau, a darparu gwerth am arian a manteision pendant.

- P'un a oedd y trefniadau deddfwriaethol cyfredol yn cyfyngu'n ormodol ar y Bil Drafft, ac a oedd wedi mynd yn ddigon pell i gysoni trefniadau rheoleiddio, cyllido ac ansawdd.

- Yr angen i ymgysylltu a sicrhau cydberchnogaeth o'r diwygiadau gan arweinwyr lleol (soniwyd am lefel ysgolion/colegau).

- Dylid trefnu darpariaeth yn seiliedig ar egwyddor sybsidiaredd.

- Pa berthynas fyddai gan y Comisiwn â sefydliadau fel: Cyngor y Gweithlu Addysg; Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Cymwysterau Cymru.

**Rhyddid Academaidd/awtonomi sefydliadol**

Roedd nifer o ymatebwyr eisiau gweld y Bil yn nodi y dylai'r Comisiwn roi sylw dyledus i awtonomi sefydliadau addysg uwch yn hytrach na'r diffiniad cyfredol o ryddid academaidd. Gofynnwyd am newidiadau i Adran 2(3).

Roedd rhai ymatebwyr hefyd eisiau gweld yr hyn y byddent yn ei ystyried yn Gomisiwn hyd braich mwy annibynnol, gyda Llywodraeth Cymru yn cael llai o gyfleoedd i ragnodi blaenoriaethau.

**Ymyriadau**

Roedd nifer fach eisiau mwy o eglurder o ran Adran 61 'Y seiliau dros ymyrryd' - pam nad oedd gan y Comisiwn y pŵer i ymyrryd ym mhob darparwr addysg drydyddol, a diffiniadau cliriach.

**Trefniadau Llywodraethu'r Comisiwn**

Derbyniwyd nifer o sylwadau ar drefniadau llywodraethu'r Comisiwn, o ran aelodaeth ei bwyllgorau a'i fwrdd, ynghyd â'i ofynion adrodd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ceisiadau i ddileu pwerau Gweinidogion Cymru i benodi aelodau Ymchwil ac Arloesi Cymru.

- Sicrhau amrywiaeth a chynrychiolaeth o nodweddion gwarchodedig, ac ystyried y gofynion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn perthynas ag aelodau ac uwch swyddogion y Comisiwn.

- Rôl aelodau ymgynghorol - awgrymiadau na fydd gan aelodau ymgynghorol ddigon o lais o bosibl; ffafriaeth tuag at aelodaeth lawn; ac a oedd niferoedd yr aelodau'n ddigonol i adlewyrchu gweithlu'r sector.

- Pryderon nad oes lle wedi'i neilltuo i brifysgolion ar y Bwrdd a gellir colli arbenigedd AU.

- Cais i ddiwygio'r Bil Drafft i roi rhywfaint o hyblygrwydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru o ran amserlenni, gan ddilyn arfer da a nodir yn Neddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ansawdd ac Ymgysylltu) (Cymru) 2020.

- Yn nodi o fewn y ddeddfwriaeth, ofynion ar gyfer Pwyllgor Archwilio.

**Strategaeth y Comisiwn**

Cafwyd cefnogaeth i'r symudiad tuag at gynllunio a chyllido tymor hwy. Cafwyd galwadau am gynyddu rôl partneriaethau Bargeinion Twf Dinesig a Sgiliau Rhanbarthol a sawl sylw y dylai cynlluniau strategol ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil ymgorffori anghenion addysg a hyfforddiant pobl ifanc ag anawsterau dysgu ac anableddau yn benodol.

Derbyniwyd nifer o sylwadau mewn perthynas â'r Comisiwn a'i strategaeth. Roedd y rhain yn cynnwys pryderon cyffredinol ynghylch faint o bwerau a gedwir gan Weinidogion Cymru neu a roddir ganddynt. Roedd sawl ymatebydd yn gofyn am ddileu pwerau Gweinidogion Cymru yn benodol mewn perthynas ag addasu cynllun strategol y Comisiwn. Cafwyd awgrym y dylid gosod rhyw fath o derfyn amser ar y ddarpariaeth addasu, i lacio neu ddileu'r pwerau hyn wrth i'r Comisiwn aeddfedu fel sefydliad. Cafwyd awgrym hefyd bod yn rhaid i unrhyw newid i'r strategaeth fod yn destun ymgynghoriad gyda'r sector.

**Cyllid**

Roedd sylwadau mewn perthynas â phwerau cyllido yn rhychwantu materion yn ymwneud â dysgu gydol oes a phwerau Gweinidogion Cymru.

Roedd rhai ymatebwyr eisiau gweld 'hawl i ddysgu gydol oes' yn cael ei chynnwys mewn deddfwriaeth. Roedd eraill eisiau eglurder ynghylch dysgu oedolion, diffiniad cliriach o'r dull

gweithredu a'i fwriad ac ailwampio'r pwerau a'r dyletswyddau i gyllido addysg 16-19 a 19+. Gofynnodd un ymatebydd a oedd cyllido addysg bellach ar gyfer cyfleusterau rhesymol o 19 oed ymlaen, yn darparu digon o gyfle i gefnogi uchelgeisiau Cymru.

Roedd nifer o ymatebwyr eisiau gweld rhai pwerau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cyllid uniongyrchol yn cael eu dileu. Roedd y pryderon yn canolbwyntio ar y posibilrwydd y byddai'r Comisiwn yn cael ei danseilio. Roedd un ymatebydd yn awyddus i weld mesurau diogelwch yn cael eu hymgorffori yn y ddeddfwriaeth i sicrhau dull strategol o ariannu'r sector.

**Addysg Bellach**

Roedd diffyg ffocws ar addysg bellach yn y Bil Drafft ac roedd y prif ffocws ar addysg uwch.

**Prentisiaethau/hyfforddeiaethau**

Gofynnodd nifer fach o ymatebwyr sut y byddai 'safonau' ar gyfer unrhyw "*brentisiaeth Gymraeg amgen*" yn cael eu sefydlu. Cafwyd sylw hefyd ar y diffyg cyfeiriad penodol at Hyfforddeiaethau.

Dylid ystyried a oes gan Cymwysterau Cymru rôl yn hyn o beth i helpu i sicrhau system gymwysterau gydlynol gydag pharch cydradd tuag at gymwysterau galwedigaethol ac academaidd.

**System gofrestru**

Mewn perthynas â'r system gofrestru arfaethedig a'r categorïau cofrestru, roedd yr ymatebwyr eisiau gweld y pŵer ar gyfer penderfynu ar gategorïau yn nwylo'r Comisiwn yn hytrach nag mewn deddfwriaeth eilaidd (h.y. rheoliadau).

Soniwyd hefyd yn benodol am yr angen i gydnabod safle unigryw'r Brifysgol Agored, fel darparwr ledled y DU.

**Symudedd cymdeithasol a sgiliau**

Gwnaeth rhai ymatebwyr sylwadau ar symudedd cymdeithasol a sgiliau a mynegwyd pryder nad oedd rhaglenni cyflogadwyedd a sgiliau ehangach, y byddai eu dysgwyr yn elwa o fframweithiau ansawdd a goruchwyliaeth y Comisiwn, o fewn y cylch gwaith. Awgrymodd ymatebydd arall y dylid sefydlu Comisiwn Symudedd Cymdeithasol a Sgiliau (neu Bwyllgor) i weithio gyda phartneriaid addysgol a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol i egluro ymhellach anghenion sgiliau a thargedau symudedd cymdeithasol Cymru.

**Buddiannau ac amddiffyniadau myfyrwyr**

Cafwyd ystod o sylwadau ar wahanol agweddau a oedd yn effeithio ar fyfyrwyr a dysgwyr, a drafodwyd yn yr ymatebion i gwestiynau 3, 4 a 5 a ofynnwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad. Derbyniwyd y sylwadau ychwanegol canlynol hefyd mewn perthynas â buddiannau myfyrwyr:

- Mae gan y Comisiwn rôl i sicrhau mynediad priodol i addysg drydyddol i ddefnyddwyr iaith arwyddion Prydain.
- Roedd rhy ychydig o wybodaeth ynghylch sut y byddai'r Comisiwn yn ymgysylltu â goblygiadau Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

(Cymru) 2018 ar gyfrifoldebau AB ac awdurdodau lleol wrth gefnogi dysgwyr ag anghenion cymhleth.

**Ysgolion**

Cafwyd ystod o sylwadau ar wahanol agweddau sy'n effeithio ar ysgolion, yr ymdriniwyd â llawer ohonynt yn yr ymatebion i Gwestiwn 5 a ofynnwyd yn gynharach yn yr ymgynghoriad. Cawsom y sylwadau ychwanegol canlynol hefyd:

- Roedd un ymatebydd eisiau gweld y Bil Drafft yn darparu mwy o eglurder mewn perthynas â chweched dosbarth ysgolion o fewn diffiniadau (a nodwyd darpariaethau yn adran 130), gan nodi hefyd nad oedd yn hawdd dirnad sut roedd darpariaethau'n berthnasol i Chweched Dosbarth Ysgolion oherwydd sefyllfa unigryw ysgolion o fewn addysg drydyddol.

- Dywedwyd hefyd bod angen rhoi sylw i natur a threfniadau llywodraethu ysgolion, er mwyn penderfynu a oedd y gofynion yn rhesymol, er mwyn sicrhau bod gan lywodraethwyr ysgolion ddigon o gapasiti.

**Trefniadau Llywodraethu AU**

Derbyniwyd sylwadau gan randdeiliaid yn y sector AU mewn perthynas â'r darpariaethau llywodraethu AU yn y Bil. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Galwad i newid y Bil i ddileu'r pŵer i Weinidogion Cymru allu diddymu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru heb i gais gael ei wneud gan y sefydliad ei hun.

- Roedd pryderon mewn perthynas â Gweinidogion Cymru yn estyn pwerau i ddiwygio neu ddiddymu'r gofynion statudol a osodir ar ddogfennau llywodraethu corfforaeth addysg uwch yng Nghymru. Roedd rhai rhanddeiliaid yn cwestiynu a gyflawnodd y darpariaethau hyn y polisi arfaethedig o greu mwy o gydraddoldeb ar draws pob math o sefydliad addysg uwch yng Nghymru.

- Diffyg eglurder o ran y rhesymeg i egluro pam mae newidiadau i gorfforaethau addysg uwch, yn ogystal â phwerau'n ymwneud â chyflwyno pwerau dyfarnu graddau a theitl prifysgol wedi dod o fewn cwmpas y Bil.

**Data/Gwybodaeth**

Er nad oedd unrhyw gwestiynau penodol ar Ran 6 o'r Bil Drafft yn yr ymgynghoriad, roedd rhai sylwadau ar y darpariaethau hyn. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Awgrym ynghylch cynnwys dyletswyddau gwybodaeth penodol mewn cysylltiad â phwerau'r Comisiwn i fonitro, adolygu a sicrhau cydymffurfiaeth, gyda chafeat y dylid ystyried trefniadau ar gyfer rhannu data sensitif â Gweinidogion Cymru a'r effaith y byddai rhannu data â Llywodraeth Cymru yn ei chael ar weithrediad effeithiol.

- Cynigion ar gyfer defnyddio Cytundebau Rhannu Data yn lle rhestru sefydliadau yn y Bil.

- Y diffyg manylion yn y Bil Drafft, er enghraifft mewn perthynas â'r bwriad o ran gwneud cais am ddata, eu coladu a'u defnyddio, yn benodol na nodwyd corff data dynodedig ar gyfer addysg uwch.

- Yr angen i'r Comisiwn ddarparu'r lefel gywir o fanylion ar gyfer addysg ôl-16 i randdeiliaid er enghraifft ar ddeilliannau i bobl ifanc byddar, y rhai â nam ar eu golwg ac anabl, deilliannau cyflogwyr o ran prentisiaethau, y galw am sgiliau Cymraeg ac anghenion hyfforddi cyflogwyr, ac i sefydliadau wrth i fyfyrwyr symud o gwmpas y sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.

# Pennod 3 - Casgliad

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio barn ar y Bil Addysg ac Ymchwil Trydyddol (Cymru) drafft a daeth ystod eang o safbwyntiau i law. Er na all y crynodeb hwn gynnwys pob barn a fynegir, maent i gyd wedi cael eu dadansoddi a byddant yn cael eu hystyried, naill ai fel rhan o ddatblygu'r Bil, ei weithrediad, a/neu wrth ystyried agweddau mwy gweithredol ar y Comisiwn yn ddiweddarach. Bydd gweithredu'r Ddeddf, pe bai'r Bil hwn yn cael ei basio, yn ei hanfod yn gofyn am ystod o is-ddeddfwriaethau, a fydd hefyd yn destun ymgynghoriad, gan ganiatáu cyfleoedd pellach i fireinio'r manylion.

Mae'r dystiolaeth a ddarparwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad yn awgrymu bod y rhanddeiliaid, ar y cyfan, yn fodlon ar y cynnig i sefydlu'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd yng Nghymru. Mynegwyd peth pryder, a hynny'n ddealladwy, ynghylch amseriad y diwygiadau yng ngoleuni'r pandemig ac mae'r pryderon hyn yn cael eu lliniaru cyn belled ag y bo modd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylem fwrw ymlaen â'n bwriad i fireinio a pharatoi'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) i'w Gyflwyno. Mae'r diwygiadau yn cynnig cyfle i sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol Cymru barhau â'i rôl hanfodol o ran gwella bywydau a llesiant. Mae hyn yn hanfodol i ffyniant unigolion ac i ffyniant cenedlaethol. Ochr yn ochr ag ymchwil o ansawdd, bydd angen hyn yn fwy nag erioed, wrth inni ddod allan o'r cyfnod heriol hwn.

Gan ddefnyddio'r sylfaen a ddarperir gan y Weledigaeth Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, ac ymgysylltiad parhaus â'r holl randdeiliaid dan sylw, mae'r diwygiadau'n cynnig cyfle i sector addysg a hyfforddiant ôl-orfodol Cymru ystyried y cynigion gan gadw mewn cof y cyd-destun y bydd angen i'r sector weithredu ynddo yn y dyfodol oherwydd Covid-19. Mae'r diwygiadau'n hanfodol i sicrhau dyfodol llwyddiannus a chynaliadwy i ddysgwyr o bob oed, i'n heconomi, i golegau a phrifysgolion ac i bawb sy'n poeni am ddemocratiaeth addysgedig ac ymgysylltiedig.

# Pennod 4 - Y camau nesaf

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r holl bartneriaid ar y materion a godwyd yn yr ymgynghoriad ac mae'r gwaith yn parhau i baratoi ar gyfer cyflwyno'r Bil. Disgwylir i ddatganiad ysgrifenedig gael ei gyhoeddi ym mis Chwefror.

## Pennod 5 - Atodiad o'r ymatebion

1. Dienw
2. Dienw
3. Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
4. Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
5. Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru
6. Prifysgol Caerdydd
7. Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu Peirianneg (ECITB)
8. Swyddfa Dyfarnwr y Diwydiant ar gyfer AU (OIA)
9. Dienw
10. Cyngor y Gweithlu Addysg
11. Prifysgol Glyndŵr
12. Dienw
13. Dienw
14. Dienw
15. Dienw
16. Dienw
17. Dienw
18. Dienw
19. Dienw
20. GMB Cymru a De-orllewin yr Undeb
21. Dienw
22. Dienw
23. Dienw
24. Dienw
25. Dienw
26. Cyngor Abertawe
27. Cyngor Sir Ceredigion
28. Colegau Cymru
29. Dienw
30. The Welsh Alternative Providers
31. Cyngor y Deoniaid
32. Y Gwasanaeth Addysg Gatholig
33. Athrofa Padarn Sant
34. Prifysgol De Cymru
35. Undeb y Prifysgolion a Cholegau
36. Archwilio Cymru
37. Y Brifysgol Agored
38. Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru
39. Cymdeithas arweinwyr ysgolion a cholegau (Cymru -) ASCL
40. Cymdeithas Ddysgedig Cymru
41. Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
42. Gyrfa Cymru
43. Coleg Cymraeg Cenedlaethol
44. Colegau Arbenigol Cenedlaethol - Natspec
45. Cymdeithas Myfyrwyr y Brifysgol Agored
46. Asiantaeth Sicrhau Ansawdd - QAA
47. Prifysgol Fetropolitan Caerdydd
48. Yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus
49. Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru
50. Cymdeithas Dysgu a Gwaith
51. Estyn
52. Canolfan Technoleg Amgen

53. Prifysgolion Cymru
54. Cadeiryddion Prifysgolion Cymru
55. UNSAIN
56. Comisiynydd y Gymraeg
57. Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru - UCAC
58. Asiantaeth Ystadegau AU - HESA
59. Consortia De-ddwyrain Cymru - SEWC
60. CCAUC
61. Dienw
62. yr Undeb Addysg Cenedlaethol
63. NASUWT
64. RNIB
65. CLlLC